ECO'R WYDDFA

Rhif 120 RHAGFYR 1986 Pris: 20c

CYFARCHION Y TYMOR

Cofiwch y bydd un rhifyn arall cyn y Nadolig. Daw allan o'r Wasg Nos Iau, Rhagfyr 18. Felly ohebwyr pentrefi. Byddwch yn barod gyda'ch deunydd nos Fawrth Rhagfyr 9

Y GAMP DDWBWL DDWYWAITH!

1 CADAIR YSGOL BRYNREFAIL A THLWS BETHEL

Angharad Price, disgybl yn y bedwaredd flwyddyn yn Ysgol Brynrefail oedd Prif Lenor dan 18 oed yn Eisteddfod Bethel. Cyflawnodd y gamp ddwbwl pan safodd ar ei thraed ar alwad y corn gwlad yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail nos Iau, Tachwedd 20fed i hawlio Cadair yr Eisteddfod am ryddiaith ar y testun "Anrheg".

Yn gynharach yn y mis, hawliodd Richard Lloyd Jones gadair Eisteddfod Bethel am ysgrifennu pennod gyntaf nofel ramant. Canmolwyd ei waith gan y beirniad, a ddywedodd fod yma gychwyn stori afaelgar. Cyflwynwyd y Gadair a Thlws y Llenor Ifanc i Richard ac Angharad mewn seremoni wedi ei threfnu gan aelodau'r Urdd yn y pentref.

Llenorion Buddugol Eisteddfod Bethel yn arddangos eu Tlysau.

Angharad Price, gyda Chadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail, yn cael ei llongyfarch gan Mr Alwyn Pleming, Pennaeth yr Adran Gymraeg.

2 PENCAMPWYR GOGLEDD CYMRU

Yn Rali Flynyddol Cymdeithas BandiauPres Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, Tachwedd 22ain, daeth Band Arian Llanrug a'r Cylch i'r brig mewn dwy gystadleuaeth. Yn Adran 2, Llanrug oedd yn fuddugol gyda 180 o farciau. Roedd pump o fandiau eraill yn y gystadleuaeth. Y darn prawf oedd "Scheherazade", a daeth Llanrug gartref gyda Thlws Alves a gwobr ariannol. Ond roedd y fonllef uchaf i'w chadw i Fand Ieuenctid y pentref. Dyma'r tro cyntaf erioed iddynt gystadlu, ac er fod nifer o aelodau'r bandiau ieuenctid eraill yn hŷn na rhai Llanrug (gyda rhai o'r aelodau'n parhau yn yr ysgol gynradd), eto'i gyd hogia a genod Llanrug enillodd y gystadleuaeth yn erbyn wyth o fandiau eraill o Ogledd Cymru a Swydd Caer. Cawsant ganmoliaeth uchel gan y beirniad, a oedd yn cymharu safon eu chwarae â goreuon y bandiau yn adrannau 3,4 a 5.

PLYGU'R ECO RHIFYN Y NADOLIG
Nos Iau Rhagfyr 18ed am 6.00 o'r gloch YSGOL GYNRADD LLANRUG

ECO'R WYDDFA

RHIF 120
RHAGFYR

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
RHAGFYR 18fed
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
RHAGFYR 9fed
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

HONNO
CYHOEDDI MENYWOD I'R BYD

Annwyl Olygydd,

Yn ddiweddar derbyniodd dros fil o fenywod yng Nghymru daflen yn rhoi'r cyfle iddynt brynu cyfranddaliadau mewn cwmni cydweithredol newydd sbon, sef HONNO, ac mae'r ymateb positif wedi rhoi hwb a hyder i'r grŵp a ddaeth at ei gilydd i'w sefydlu.

I'r rhai hynny ohonoch sydd eto heb glywed sôn amdani, gwasg yw HONNO i fenywod yng Nghymru. Ei nod yw cyhoeddi gwaith gan fenywod — nofelau, storiau byrion, ysgrifau, barddoniaeth, llyfrau plant, adargraffiadau, ymchwil ar hanes menywod yng Nghymru ac astudiaethau a dadansoddiadau o'r byd o'n cwmpas o safbwynt menywod. Ail-fuddsoddir unrhyw elw mewn cyhoeddiadau newydd.

Mae wyth sylfaenydd HONNO yn gwbl argyhoeddedig fod torreth o wybodaeth a phrofiadau a thalentau yn llechu mewn llyfrgelloedd, silffoedd a meddyliau menywod led-led Cymru, sydd eto heb weld golau dydd, a'u bwriad yn ystod y blynyddoedd nesaf yw "cyhoeddi" hynny i'r byd!

Gobeithir cyhoeddi lleiafrif o bedwar llyfr bob blwyddyn, dau yn Gymraeg a dau yn Saesneg.

OES AUR CYMRY LLUNDAIN?

Y llyfr Cymraeg cyntaf i ymddangos fydd "Buwch ar y Lein" — dyddiadur Hafina Clwyd, yn sôn am ei phrofiadau helbulus pan fentrodd fel athrawes ifanc ddibrofiad trwy byrth peryglus ysgolion Llundain yn niwedd y pumdegau, a'i dihangfa gyda'r hwyr i ddiogelwch Clwb Cymry Llundain yn Gray's Inn Road.

O'R BALA I BALACLAVA

Ail-argraffiad o The Life of Elizabeth Davis (Betsy Cadwaladyr i bobl y Bala) gan Jane Williams (Ysgafell) fydd y cyhoeddiad Saesneg cyntaf gyda chyflwyniad newydd gan yr hanesydd Deirdre Beddoe.

Mae'r bywgraffiad hwn yn olrhain hanes dynes hynod ac anghyffredin a adawodd Gymru i fynd i weini i Loegr, ond sy'n llwyddo trwy ei gweledigaeth a'i gallu i roi trefn hyd yn oed ar hafoc gweinyddol Florence Nightingale yn rhyfel y Crimea lle treuliodd gyfnod fel nyrs Balaclava.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am HONNO cysylltwch â:
Luned Meredith, Ty'n Fedw, Llanuwchllyn.
Ffôn: 06784 255.

Yn y ffurflen gais am gyfranddalaidau i HONNO, sylwch ar y frawddeg ganlynol:-

"Er na fedrwn gynnig cyfranddaliadau i ddynion, rydym yn croesawu rhoddion a benthyciadau oddi wrth unrhyw un."

Pe bai cymal o'r fath wedi cynnwys y gair "merched" yn lle "dynion", ryw'n siŵr y byddai cefnogwyr HONNO yn brygowthan am ragfarn rhyw. Mae'n ddigon i dipyn o olygydd losgi ei drôns!!

YMDDIHEURIAD

Oherwydd diffyg gofod bu'n rhaid cadw rhai erthyglau a phytiau yn ôl y mis hwn. Gobeithiwn eu cynnwys yn y dyfodol.

DATRYS "DIRGELWCH"

Annwyl Olygydd,

Cyfeiriwn at yr erthygl ar dudalen flaen o rifyn Tachwedd o Eco'r Wyddfa o dan y penawd 'Dirgelwch', ac amgauwn lungopi sydd yn cadarnhau mai dime George III yw'r darn dan sylw.

Gobeithio y bydd hyn yn datrys y 'Dirgelwch'.

Yr eiddoch yn gywir,
H H Roberts,
Rheolwr
Banc y Midland
Caernarfon.

APÊL – I APÊL Y SGANIWR

Annwyl Syr,

Gyda gofid y darllenais am benderfyniad Cyngor Cymuned Waunfawr i beidio â chyfrannu at Apêl Sganiwr Ysbyty Gwynedd.

Yn ôl yr adroddiad yn y papur bro y rheswm dros beidio â chyfrannu oedd mai cyfrifoldeb y Llywodraeth ydyw darparu'r gwasanaeth hwn. Yn wir, fe allaf gydymdeimlo â chwi fel cyngor.

Fodd bynnag, nid ydyw hyn yn ddigon o reswm i wrthod cyfrannu tuag at y Sganiwr.

Yn ystod fy ngweinidogaeth yn Sir Drefaldwyn a hefyd yma yn Arfon, yr wyf wedi ymweld â nifer o gleifion a oedd yn dioddef o ganser. Yn ogystal, yr wyf hefyd wedi gweinyddu mewn nifer o wasanaethau angladdol pobl a fu farw o ganser. Yn wyneb y poen a'r galar a ddioddefir mewn achosion fel hyn, yr wyf yn barod i ddweud mai fel arall y dylai Cyngor Cymuned Waunfawr fod wedi penderfynu.

Felly gan fod yr angen yn fawr am Sganiwr i gynorthwyo a chynnig gobaith i deuluoedd yng Ngwynedd, yr ywf yn apelio, yn enw rheswm a chariad brawdol, i Gyngor Waunfawr ymateb yn anrhydeddus i Apêl y Sganiwr Ysbyty Gwynedd.

Yn gywir,

John Morris,
Annedd Wen,
Tal y Bont,
Llanrug,

MUDIAD 'CEFN' DIRWYON – "YN Y FAN A'R LLE"

Annwyl Olygydd,

Dirwyon yn y fan a'r lle

Mae Cefn — y mudiad i gael hawliau llawn i siaradwyr Cymraeg — yn fodlon iawn rhoi cefnogaeth a chymorth i unrhyw un a ddigwydd dderbyn un o'r dirwyon newydd 'y fan a'r lle' ac sydd yn gwrthwynebu talu y ddirwy am ei bod yn uniaith Saesneg.

Yr eiddoch yn gywir,
Eleri Carrog,
Ysgrifennydd Cefn,
8 Rhes Segontium,
Caernarfon.

YMCHWIL I DDYLANWAD TWRISTIAETH

Annwyl Olygydd,

Apwyntiwyd "Canolfan Astudiaethau Gwerin Ewrop" gan Fwrdd Croeso Cymru i ymchwilio dylanwad twristiaeth ar gymdeithas, diwylliant a iaith yng Nghymru. Dechreuodd ein hastudiaeth yn gynharach eleni. Bwriadwn orffen yr adroddiad erbyn Mehefin 1987.

Amcan yr astudiaeth yw asesu effaith twristiaeth ochr yn ochr â dylanwadau cymdeithasol eraill megis y cyfryngau, mewn-lifiad, tueddiadau economaidd a chyfnewidiadau technegol. Bwriadwn astudio agweddau penodol sy'n peri i drigolion gefnu ar y diwydiant croeso. Gofynnodd y Bwrdd Croeso hefyd i ni wneud argymhellion ymarferol a all gyfoethogi, trwy dwristiaeth, draddodiadau diwylliannol, cymdeithasol a ieithyddol arbennig y genedl.

I'n galluogi i wneud cymhariaethau traws genedlaethol rydym yn defnyddio dulliau ymchwil a ddatblygwyd yn llwyddiannus gan grŵp rhyngwladol o arbenigwyr mewn twristiaeth. Mae un o gadeiryddion y grŵp yma yn aelod o'n tîm ni. I fanylu, mae'r holiadur a ddefnyddiwyd gennym i asesu agweddau preswylwyr lleol tuag at dwristiaeth, ac ymwelwyr tuag at drigolion, wedi ei berffeithio ar sail defnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn Sbaen, Iwgoslafia, yr Unol Daleithiau, Pwyl a Hwngari er enghraifft. Fe addaswyd yr holiadur i amgylchiadau Cymreig, fel canlyniad i dreialon ymarferol yma, ar gyfer tair astudiaeth leol fanwl: yn Llanberis, Castell Newydd Emlyn ac un o gymoedd y De.

Dewiswyd yr ardaloedd yma trwy ddefnyddio amryw o nodweddion a gytunwyd gan y grŵp rhyngwladol, ond yn bennaf oherwydd eu bônt yn arddangos cyfnewidiadau cymharol gyflym mewn twristiaeth o fewn cymunedau sydd ddim yn rhy fawr i'w hastudio'n fanwl ac yn meddu ar fywyd diwylliannol cyfoethog.

Yn ogystal a'r astudiaethau lleol ymarferol yma rydym yn ymchwilio ar raddfa genedlaethol ymhlith unigolion a sefydliadau sy'n medru cynnig gwybodaeth neu sylwadau ar sail eu profiadau personol neu brofiad eu haelodau.

Mae'r llythyr yma yn eich gwahodd chi, i gynnig unrhyw sylwadau a fydd yn eich barn chi, o werth i'r astudiaeth yma. Nid yw'n fwriad gennym ofyn am hyn ar sail cyfweliad neu holiadur ffurfiol, er mwyn i bob cyfranwr deimlo'n rhydd i adlewyrchu agweddau sy'n deillio o'i safbwynt arbennig.

Ymddiheurwn am eich cyfarch mewn cylchlythyr ond gwnaethom hyn er mewn ymestyn ein ymghynghorion mor eang a phosib. Os byddwch yn ysgrifennu atom ar ran unrhyw gorff, byddai'n dda gennym petaech yn nodi diddordebau, aelodaeth a dosbarthiad daearyddol y sawl byddwch yn eu cynrychioli. Gwell gennym dderbyn sylwadau ar bapur ond os hoffech roi eich barn ar y ffôn neu wyneb yn wyneb, fe wnawn ein gorau i wneud trefniadau addas.

Oherwydd cyfyngiadau amser byddai'n ofynnol i chi ymateb cyn diwedd y flwyddyn o leiaf. Gobeithio y byddwch yn barod i'n cynorthwyo yn yr astudiaeth dyngedfennol yma.

Ar ran y tîm ymchwil
Yr eiddoch yn ddiffuant

Alan Wynne Jones
Canolfan Astudiaeth Gwerin Ewrop,
Stryd yr Orymdaith,
Llangollen,
Clwyd

CORFF DATBLYGU ADDYSG GYMRAEG

Annwyl Olygydd,
Fel y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod erbyn hyn carcharwyd Ffred Ffransis am 9 mis fel rhan o'r ymgyrch dros sefydlu CORFF DATBLYGU ADDYSG GYMRAEG. Nod Corff o'r fath fuase hyrwyddo datblygiad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac hefyd dysgu Cymraeg i'r di-Gymraeg yng Nghymru ac i weithredu fel fforwm cenedlaethol i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwneud hyn.

Gwelwyd yr angen am gorff o'r math yma yn glir iawn yn ystod y 4 mlynedd ers cychwyn yr ymgyrch. Bu Ffred Ffransis yn chwarae rhan allweddol yn yr ymgyrch i sefydlu cwrs cyfrwng Gymraeg yng Ngholeg Amaethyddol Llysfasi yng Nghlwyd. Cymerodd hyn 3 mlynedd o lafur caled gan gynnwys dulliau anghyfansoddiadol. Ers sefydlu'r cwrs cydnabyddir ei lwyddiant gan bawb — ond 'roedd rhaid dadlau'n hir i brofi'r angen am y cwrs, i brofi fod yna fodd cael adnoddau ar gyfer y cwrs ac i brofi fod modd goresgyn y problemau o staffio.

Yn yr un modd, cafwyd trafodaethau tebyg yng Ngholeg Llandrillo yn Rhos dros gyfnod o ddwy flynedd. Unwaith eto roedd rhaid defnyddio dulliau anghyfansoddiadol i sefydlu'r cwrs, ac unwaith eto cafwyd yr un dadleuon ynghylch profi'r galw am gwrs i ysgrifenyddesau trwy gyfrwng y Gymraeg, adnoddau a staffio. Ym 1986 rhaid i aelodau Cymdeithas Yr Iaith barhau hefo'r un math o ymgyrchu — y tro yma i geisio sefydlu cyrsiau nyrsio ac adeiladu trwy gyfrwng y Gymraeg. Unwaith eto bydd rhaid mynd trwy'r un dadleuon ac o bosibl bydd rhaid troi at ddulliau anghyfansoddiadol.

Ni ddisgwylir i neb ddiolch i Gymdeithas yr Iaith am gael y maen i'r wal lle roedd y llwyddiannau uchod yn y cwestiwn. Er hynny disgwylir cydnabyddiaeth a disgwylir dealltwriaeth o'r rheswm pam fod angen CORFF DATBLYGU ADDYSG GYMRAEG fel na fydd rhaid ymgyrchu'n barhaol am beth ddyle fod yn hawl i ni. Gobeithio y bydd nifer fawr o bobl yng Nghlwyd yn cydnabod eu dyled i Ffred am lwyddo i gael cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng Ngholegau Llandrillo a Llysfasi ac y byddant yn troi allan i'w gyfarch yn gyhoeddus pan fydd yn cael ei ryddhau ar ddechrau mis Mawrth 1987.

Yr eiddoch yn gywir,
Dros Gymru
Toni Gruffydd Schiavone,
Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,
Bryn Celyn,
Pandy Tudur,
Abergele,
Clwyd.

CRONFA EMRYS AP IWAN

MUDIAD ADFER

Annwyl Olygydd,
Hoffwn, trwy gyfrwng eich papur dynnu sylw y darllenydd at Gronfa Emrys ap Iwan. Pwrpas y gronfa hon yw cynorthwyo gwaith ADFER. Defnyddir eich rhoddion er mwyn y gymdeithas Gymraeg trwy gynnal gweinyddiad ADFER a hyrwyddo ymgyrchoedd dros Y FRO GYMRAEG.

Erfynir am ymateb i'r apêl hon gan gofio'r costau sydd yn wynebu ADFER yn eu hymgyrch bresennol dros benodiadau Cymraeg yn y Fro Gymraeg. Geilw Adfer ar gynghorau a gwasanaethau cyhoeddus yn y Fro Gymraeg i fabwysiadu polisi cadarnhaol o wneud y Gymraeg yn hanfodol i bob swydd o fewn eu hawdurdod. Rhaid llwyddo yn yr ymgyrch hon i sicrhau nad iaith cartrefi hen bobl a mynwentydd fydd y Gymraeg, ond iaith cymdeithas gyfan.

Anfonwch eich cyfraniadau i'r cyfeiriad isod, sieciau yn daladwy i 'Gronfa Emrys ap Iwan'.

Yn ddiffuant
Huw Antur
(Trysorydd Mudiad Adfer),
Glynllifon,
Llanuwchllyn,
Y Bala.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS

Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GŴYL HUW LLOYD EDWARDS

5-6 Rhagfyr 1986

Dyma'r seithfed yng nghyfres Yr Academi Gymreig o wyliau llenyddol: gwyliau teyrnged i rai o feirdd, llenorion a dramodwyr mwyaf arbennig ein cyfnod.

Bachgen o Arfon oedd Huw Lloyd o'i eni ym Mhenisa'r-Waun, ac ar wahân i alltudiaeth fer yn Llundain efo cwmni olew Anglo-Iranian, yn Arfon y bu, yn Athro Saesneg yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes ac yna'n Ddarlithydd yn Adran Ddrama y Coleg Normal, Bangor.

Evelyn Williams, ar y pryd yn gynhyrchydd radio ym Mangor, oedd tua'r cyntaf i adnabod ei ddawn ac felly y daeth cymeriadau fel Bogo'r Bwgan Brain a chyfresi fel Plant y Mynachdy yn rhan o wefr "Awr y Plant". Roedd y chwiw sgwennu erbyn hyn wedi gafael o ddifri a dyma ddechrau ar y comediau cynnar a'r gyfathrach hynod rhyngddo a chwmni anfarwol John a Mary Stamp, Llanerchymedd. Mae un o'r comediau hynny "Yr Offiws" yn cael ei pherfformio nos Wener yr Ŵyl gan Gymdeithas Ddrama Gymraeg ac Adran Ddrama Coleg y Brifysgol, Bangor a gobeithio y daw â chip ar draddodiad cyfoethog a hiwmor ffraeth cefn gwlad y ddrama bentra a chip hefyd ar y chwerthin oedd mor amlwg yng nghymeriad yr awdur.

Ond tu ôl i'r clown, y digrifwr gwamal a'r tynnwr coes roedd y lleddf a'r difrifol hefyd yn llywodraethu. Yn y cywair hwnnw ar y cyfan yr ysgrifennwyd y prif ddramâu, a dioddefaint a chreulondeb dyn at ddyn ac at anifail yn nodau cyson. Fe wyddai'r awdur rywbeth ei hun am ddioddef; collodd ei iechyd yn ifanc a marw yn 59 oed heb orffen cyflawni. Mae ei fedd ym mynwent Llanbeblig.

Mae ei wraig Jane Lloyd Edwards yn dal i fyw yn eu cartref – Talgoed, Ffordd Pant, Caernarfon. Ei ferch hynaf, Ann Llwyd, ydy Golygydd 'Pais' ac Eleri Llwyd, y gantores ydy'r llall. Mae hi ar hyn o bryd yn cyflwyno ei rhaglen radio ei hun ar brynhawn lau.

NOS WENER, COLEG Y BRIFYSGOL

6.00 p.m.	Agor yr Ŵyl a swper CLWB Y STAFF	8.00 p.m.	'YR ORFFIWS' Perfformiad gan Gymdeithas Ddrama Gymraeg ac Adran Ddrama Coleg y Brifysgol yn y STIWDIO DDRAMA NEWYDD Cynhyrchydd: William R. Lewis

DYDD SADWRN, NEUADD JOHN PHILLIPS, Y COLEG NORMAL

10.30 a.m.	Coffi	3.00 p.m.	Bogo'r Bwgan Brain a Darlleniadau Digri Eraill. Trefor Edwards
11.00 a.m.	'Y Llyffantod' Darlith gan William R. Lewis	7.00 p.m.	Y Dyn a'r Dramodydd. Portread o Huw Lloyd Edwards gan Victor John yn cael ei gynorthwyo gan Jini Owen, Edwin Williams, Morien Phillips, J.O. Roberts, Gwyn Lloyd a Llewelyn Thomas a chan rai o fyfyrwyr presennol y Coleg Normal
12.30 p.m.	Cinio		
2.00 p.m.	Huw – Cyfaill a Chydweithiwr. Gwenlyn Parry		

TOCYNNAU AC ARCHEBION BWYD o Swyddfa'r Academi Gymreig, Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd (Ffôn: Caerdydd 492064).

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD

"BYD Y GLOŸN BYW"

Bu cyfarfod o Gymdeithas Wyddonol Gwynedd nos Fawrth, Tachwedd 4ydd. Y siaradwr oedd Mr Huw John Hughes o Pili Palas, Porthaethwy, a'i destun oedd 'Byd y Glöyn Byw'. Difyr oedd deall iddo gael ei ysbrydoli i ymddiddori yn y maes yma pan yn blentyn ifanc gan ei brifathro yn ysgol elfennol cefn gwlad ger Bethesda. Esboniodd mor anodd oedd i'r glöyn byw ffynnu yn y wlad yma y blynyddoedd diwethaf oherwydd hafau oer a gwyntog, effeithiau chwistrellu cemegau hyd y tir, a phrinder yn yr amgylchfyd o loches iddynt luosogi. Ei obaith yn Pili Palas yw magu cyflenwad o löen byw cynhenid a'u gollwng i'r amgylchfyd. Hoffai'n fawr weld addysgu plant ysgol ym mywyd y pryfyn prydferth yma.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar yr 2il o Ragfyr, y darlithydd fydd Mr Emyr Searell o Gyngor Arfon a'i destun fydd 'Agwedd ar drin sbwriel'. Croeso i unrhyw un fynychu y cyfarfodydd am 7.30 pm yn Narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol, Ffordd Deiniol, Bangor.

DERWYN HUGHES
Treflys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
870945

Am nenfydau a waliau siapus

Artex

CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS

CELF A CHREFFT

Llanberis

ART & CRAFT

Mae'r siop yn agor Adran Dillad Merched ansawdd fel newydd

Gwahoddwn chi i ddod â dillad diangen, glân, difarc a ffasiynol i'w troi yn arian.

Cymerir dillad i'w gwerthu unrhyw Sadwrn rhwng 11.00 a 4.00pm.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth

Y TEULU RUDKIN

LLANBERIS

Byddwch gynnes a chlyd yn nhywydd garwaf y gaeaf hwn! Efo'n

* sanau a sweaters trwchus
* dillad thermal
* capiau a menyg gwlân
* cotiau ac esgidiau dal dŵr

i gerddwyr, ffermwyr ac ati, 'does dim esgus ichi wlychu na rhynnu.

Profwch rinweddau anhygoel ein sweaters a siacedi HELLY HANSEN FIBRE PILE. Yn gynnes fel tost, gellir eu golchi mewn peiriant ac maent yn para am hydoedd. Cafodd rhai rhieni fod y cotiau plant wedi gwneud i ragor na dau blentyn.

Cofiwch – i ddringwyr a llawer mwy!

joe brown

CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

Ffôn: LLANBERIS 870327

Hefyd yng NGHAPEL CURIG (tu cefn y Post) 069 04 205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

ROYAL VICTORIA HOTEL

GWESTY BRENHINOL VICTORIA

LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL

oddi wrth

WESTY BRENHINOL VICTORIA LLANBERIS

FFÔN: LLANBERIS 870253

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Vera, Haydn a John

SIOP CHIPS

SNOWDON VALLEY

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Michal a Brigid Moran a'r plant

Sea Fresh Chip Shop

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf

ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 870264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY, MAX FACTOR
Ffilmiau a chamerau KODAK a FUJI

Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau am brisiau cystadleuol

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

STRYD FAWR
LLANBERIS
870328

CYNLLUNWYR GWALLT YN ARBENIGO MEWN TORRI

Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SÊL IONAWR

Am anrhegion y Nadolig dowch i Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

Stryd Fawr
Llanberis 870501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

CHICO A ROSE

龍 騰 樓

BWYTY TSINEAIDD Y DRAGON

38 STRYD FAWR
LLANBERIS 872205

HEFYD NEWYDD AGOR GYFERBYN . . .

翠 谷 *Chico Meat & Wine*

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU

oddi wrth

W.J. DAVIES

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225

A.A. R.A.C. M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Hefyd

JOHN WHITE

THE BODY SHOP

LLANBERIS

★ Trwsio wedi damweiniau
★ Ailsbreio
★ Curo paneli

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Wil a Garvin

W.G. ALLSUP

Storfa Gig Glan Padarn

LLANBERIS 870319

MWY O GYFARCHION O LANBERIS

MYRA'S

44A STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 872361

Dymuna Mr a Mrs Starkey, Nigel ac Alicia Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cwsmeriaid, hen a newydd

CARDIAU, ANRHEGION, MELYSION, SIGARETS, HUFEN IÂ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

D & E

Dinorwig House

LLANBERIS 870300

Dewch atom ar gyfer anrhegion Nadolig i bawb o'r teulu. Nwyddau ffansi, Cardiau Nadolig, Papur Lapio etc.

SEREN

47 STRYD FAWR

LLANBERIS 871060

BWYDYDD IACHUSOL
FFRWYTHAU A
LLYSIAU
YN FFRES O'R
FARCHNAD

Dymuna Barbara a Peter Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus i gwsmeriaid hen a newydd

---

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES LLANBERIS 870708

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–

Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r organ

Nos Wener
Adloniant Byw

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn y

Gwynedd Hotel & Restaurant

LLANBERIS 870203

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb yn yr ardal

oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

Y LLE DELFRYDOL I BRYNU ANRHEG NADOLIG I'CH ANIFEILIAID ANWES

PET TRADE & INDUSTRY ASSOCIATION PTIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

GARTH MAELOG

PET CENTRE

51 STRYD FAWR

LLANBERIS 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

W.A. JONES

Contractwr Adeiladu

Aelyglyn

Llanberis

Ffôn: 871551 neu 871463

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Mr a Mrs Shipley a'r Staff

Siop Spar STORFA PADARN

Llanberis 870150

Rydym newydd agor mewn pryd i'ch diwallu ar gyfer y Nadolig!

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES
a'r MEIBION

870 902 — 870 444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

GLEN'S FOOTWEAR

Stryd Fawr
LLANBERIS 871470

Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Maxelle's

(Perchnogion Mr a Mrs M. Thomas)

Stryd Fawr
Llanberis 871427

Dewis rhagorol o ddillad hamdden, eitemau ategol a gemwaith. Anrhegion Nadolig delfrydol,

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Gwesty Erw Fair

Llanberis 870238

Cyfarchion y tymor i bawb oddi wrth Mike a Kim Bishop. Byddwn ar agor trwy gydol mis Rhagfyr ar gyfer partïon Nadolig ac ati

Ar agor hefyd ar gyfer cinio dydd Nadolig. Ffoniwch, os gwelwch yn dda, am fanylion ac i sicrhau lle. Croesewir teuluoedd yn arbennig

---

Mae BYSIAU KMP yn dymuno i chi

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA.

Defnyddiwch BWS GWYNEDD 88 i Gaernarfon ac yn ôl

Bydd bws cyntaf y dydd yn gadael Llanberis am 7.30 yn y bore ac yna bob hanner awr hyd 9 o'r gloch – yna ar yr awr hyd 6 yr hwyr.
Ond ar ddydd Gwener a Sadwrn bydd gwasanaeth bob hanner awr o 7.30 yn y bore hyd 6 yr hwyr. BYDD TOCYN ARBENNIG I DEITHWYR SY'N TRAFAELIO YN DDYDDIOL AM WYTHNOS AR FYSUS KMP A'I BRIS FYDD £3. Bydd y bws yn galw yn y pentrefi cyfagos fel a ganlyn:-

Brynrefail – Amser gadael Llanberis +10 munud
Cwmyglo – Amser gadael Llanberis + 12 munud
Llanrug – Amser gadael Llanberis + 16 munud.

Bydd y bws yn gadael Caernarfon yn ôl i Lanberis "hanner awr wedi'r awr" o ddydd Llun hyd ddydd Iau, ac "ar yr awr" ar ddydd Gwener a Sadwrn. (Fe geir y manylion yn llawn ar yr amserlen swyddogol)

Prisiau tocynnau i Gaernarfon

O	Yn ôl a blaen	Sengl	Plant
Llanberis	£1.00	50c	50c
Brynrefail	80c	40c	40c
Cwmyglo	60c	30c	30c
Llanrug	50c	30c	30c

Os am wneud eich siwrne yn siwrne gwerth chweil;
Ac os am eich cludo'n gysurus mewn steil
I'r wlad neu i'r dref – gofalwch da chi,
Drafeilio bob amser ar fys KMP.

Mae cystadleuaeth yn iachus ond gall monopoli olygu prisiau uwch.

"CEFNOGWCH KMP –
Y BYSUS GLAS SY'N PLESIO"

MWY O GYFARCHION O LANBERIS

Dymuna pawb yn siop
VALERIE J. JONES
GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS
870301

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau a chwsmeriaid oll

CANOLFAN GWEU

SEION

WEAVING CENTRE

STRYD FAWR
LLANBERIS
871090

Hoffai Rose, Gaynor, Pom a Jenny ddiolch i bawb a fu mor garedig a pharod eu cymorth yn ystod blwyddyn gyntaf ein busnes.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA.

Y GANOLFAN AR GAU 25 RHAGFYR – 16 IONAWR 1987

Padarn Lake Hotel

Perchnogion
Terry a Val Skilki
STRYD FAWR
LLANBERIS
870260

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y gwesty.

Rhowch anrheg **lleol** eleni o siop

FFYN A CHERRIG
(Sticks & Stones)
Stryd Fawr
Llanberis

Crefftau, Fframio Lluniau, Raciau Llythyrau, Cwpanau, Tarianau etc.
Platiau efo'ch hoff lun arnynt

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Carol a Gwil

Dymuna
Mervyn, Jill, Helen
a Jenny Jones

CASTLE GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy

SIOPAU COED

STRYD FAWR

LLANBERIS



Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

BRYSIWCH I GAEL EICH
TEGANAU, SIOCLED, CARDIAU NADOLIG AC ANRHEGION CAIN
YN SIOP
GWYNETH AC EIFION
ROBERTS
LLANBERIS 870491

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
BECWS ERYRI
STRYD FAWR
LLANBERIS 870491
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Danny a Nerys Roberts a'r holl staff

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS.
Ffôn: 870202
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

O LAW I LAW: Aeth llond bws i Theatr Gwynedd nos Fercher, Tachwedd 5ed i weld addasiad o nofel "O Law i Law". Mwynhawyd y noson yn fawr. Diolch i Enfys Parry am drefnu y noson ac i Alwen Robert am gymeryd yr enwau a'r arian.

NOSON TÂN GWYLLT: Diolch i'r Parch a Mrs Alun Hawkins, athrawon Ysgol Sul a chyfeillion Eglwys Sant Padarn am drefnu noson tân gwyllt yng ngardd y Rheithordy. Cafwyd noson fendigedig a digon o fwyd a hwyl. Wel beth amdani a chodi pwyllgor o'r ardal y flwyddyn nesaf a chael un goelcerth fawr i'r pentref. Mae digon ohonom yn y pentref sydd a diddordeb i wneud hyn.

SANT IOAN: Dymunai Nyrs Glenys Parry a phwyllgor Sant Ioan ddiolch i Mr Aneurin Jones, Gwesty Dolbadarn am gael defnyddio ystafell a chegin y gwesty i ddarparu lluniaeth ar gyfer aelodau Sant Ioan a gwesteion, a ddaeth i'r gwasanaeth yn yr Eglwys, nos Iau, Hydref 30. Diolch i famau y plant a'r aelodau am y bwyd, hefyd i Graham am ei helpu i osod y byrddau ac yn y gegin ac i'r rhai canlynol am weini ar bawb, Meira Willis, Glenys Owen, Alwena Thomas, Ann Bryniog Jones, Menai Jones, Gwen Edwards, Delyth Hughes, Margaret Flemming, Mair Jones, Helen Parry a Iola Sellars. Diolch yn fawr i bawb.

YSGOL FEITHRIN: Bydd Noson Goffi yn y Ganolfan at yr achos nos Wener, Rhagfyr 5ed. Os oes rhywun eisiau cyfrannu, cysylltwch â Mrs Catherine Ll Williams.

CALAN GAEAF: Diolch i Brenda a Meirion Evans, Gwesty Gwynedd ac aelodau o'r Frigad Dân Llanberis am drefnu Noson o Country and Western gyda Dave Curtis yng Ngwesty Gwynedd nos Wener, Hydref 31. Cafwyd noson bleserus iawn a'r elw yn mynd at Gronfa y Frigad Dân.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Myfanwy Davies a'r teulu ar golli ei mam.
Mrs Kate Griffiths ar golli ei brawd yng nghyfraith yn Canada.
Stanley ac Eurwyn Griffiths ac Annie Jones a'r teulu oll ar golli mam a chwaer, sef Mrs Mary Grace Griffith, 5 Dol Eilian.
Mrs Gwyneth Robert, Allan a'r teulu oll ar golli priod a thad, sef Mr Idwal Robert, Stryd Newton.
Mrs Jenny Rees Lennon, Paul, Michael ac Allison, Bangor (gynt o Glyn Afon, Stryd Fawr, Llanberis) ar golli priod a thad, sef Mr Tom Lennon.
Mr Eddie Lennon a'r teulu, Plastirion ar golli ei frawd.
Mrs Alice Thomas, Flat, Station Road, ar golli brawd yng nghyfraith.

BINGO: Cynhaliwyd Bingo yng Ngwesty Gwynedd nos Wener, Tachwedd 14. Yr oedd yr elw at gangen Treborth R D A . Gwnaed swm o £177. Dymuna Mrs Eirlys Ellis ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

CYNGERDD: Bydd Cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn nos Wener, Rhagfyr 19 am 8 o'r gloch. Yr artistiaid fydd, Hogia'r Wyddfa ac eraill, a'r elw yn mynd at y Sganiwr. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Mrs Heather Jones, Stryd y Ffynnon.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol:-
Mrs Vivian Thomas, 89 Maes Padarn
Mr Alan Parry, sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty yn Lerpwl.
Mr William Robert, Capel Coch Road.
Mr Ifan Jones, Maes Padarn sydd newydd ddychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd.
Caryl Williams, merch fach Linda a Nigel, 12 Turner Street.
Jackie Kisalw, 55 Dol Elidir.
Bethan Jones, 40 Avon Terrace, ar ôl cael damwain yn ei gwaith.
Mrs Jennie Thomas, Turner Street.

DYWEDDÏO: Dymuniadau gorau i Dylan a Beti, merch Mr a Mrs J H Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis.

DYMUNIADAU DA: I Colin Thomas, 89 Maes Padarn; Nicola Prydderch, Olgra Terrace a Gwynfor Williams, Bod Awen ar gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

GENI: Dymuniadau da i Kelvin ac Ann Jones, Stryd Newton ar enedigaeth eu merch fach Cerri Wyn, gan wneud Bert a Megan Garfield yn daid a nain unwaith eto.

DYMUNIADAU DA: I Eirian Hughes, Maes Padarn, ar ei gwaith newydd yn Bryn y Neuadd, Llanfairfechan.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Mrs Annie Jones, Stryd Newton sydd yn cwyno ers tro byd yn awr ac i mewn ac allan o'r ysbyty. Mae yn dibynnu yn hollol ar ei gŵr Bob i fynd o amgylch. Gobeithio na fydd yn rhaid mynd i'r ysbyty dros y Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU i Menai a Melvin Pitts ar enedigaeth eu mab bach, Iwan Lloyd ar 31 Hydref.
Dymunant ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gafwyd ar yr achlysur.

LLONGYFARCHIADAU i Yvonne a Malcolm Pitts ar enedigaeth eu mab bach Mark ar Dachwedd 7fed.
Maent hwythau yn dymuno diolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt.

LLONGYFARCHIADAU I Brenda a Hugh Hughes, 87 Maes Padarn ac i Menai a Frank Burslem, Llanbeblig Road, y ddau gwpwl yn daid a nain am y tro LLONGYFARCHIADAU i Mr Hugh Richard Jones, Bod Fair ar fod yn hen daid am y tro cyntaf. Hefyd i Mrs M E Pritchard, 14 Stryd Siarlot am fod yn hen nain unwaith eto, a Mr a Mrs Bill Pitts ar fod yn nain a taid ddwy waith mewn wythnos.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 30 dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Katie Griffith ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yn Canada. Apeliodd y llywydd am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd.

Ein gŵr gwadd oedd y Parch Trefor Lewis, Deiniolen, a chafwyd darlith hynod o ddiddorol ar ddiwygwyr y Methodistiaid, sef Hywel Harris a William Williams, Pant-y-celyn. Y gwestwragedd oedd Mrs Dwynwen Roberts, Mrs A M Evans a Mrs Katie Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Betty Jones a Mrs Nan Owen. Enillwyd y raffl gan Mrs Nan Owen.

LLONGYFARCHIADAU i ti Nicola Prydderch, 'Bronallt', Olgra Terrace ar dy ben-blwydd yn 18 oed ar Dachwedd 19, oddi wrth Nain, Argoed, Llanberis.

DIOLCH: Dymuna Mr Alan Parry ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'r cyfarchion da a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac yn y Royal yn Lerpwl. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHION: I Mrs Betty Rees Evans, gynt o 5 Rhes Minafon, Llanberis ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed ar Ragfyr 7fed. Pen-blwydd hapus iawn oddi wrth Bryn ac Olwen a'r teulu oll.

DIOLCH: Dymuna teulu'r diweddar Thomas Charles Lennon (gynt o Glynafon) ddatgan eu

gwerthfawrogiad i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth.

COFFÂD
ROBERT HUGH OWEN (ROBIN)
Ar y 15fed o Fedi, 1986 bu farw Robin, mab Evan a Betty Owen, a brawd Dafydd, Llinos a Gwawr, yn 24ain oed.

Gweithiodd i Awdurdod Iechyd Gwynedd am gyfnod o bedair blynedd, gan dreulio dwy flynedd gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans a dwy flynedd fel Cynorthwydd dan Hyfforddiant yn yr Adran Lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, ac yn Ysbyty Gwynedd ar ôl hynny.

Teimlai ei lu cyd-weithwyr a chyfeillion yn drist oherwydd colli person mor abl a chydwybodol. Bu'n golled, yn ogystal, i'r gwasanaeth ond erys y gwaith a wnaeth, a'r safon yr ymgyrhaeddodd ato, yn ein cof fel enghraifft o'r llwybr y dylem ninnau ei droedio.

Yn anffodus, oherwydd ei afiechyd ni allodd Robin sefyll ei arholiadau terfynol i ennill cymhwyster ODA er ei fod wedi ennill clod iddo'i hunan trwy ei waith ymarferol ac academaidd, ac mewn cydnabyddiaeth o'i waith ysgol byddir yn rhoi cymhwyster yr Ysgol Hyfforddi ODA iddo ar ôl ei farw.

Er cof am Robin, ac i annog hyfforddeion y dyfodol, sefydlir Cronfa Ymddiriedolaeth i ddyfarnu gwobr flynyddol i hyfforddai yng Nghymru.

Bydd Awdurdod Iechyd Gwynedd yn rhoi cwpan neu darian yn gysylltiedig a'r wobr hon, a'r Cyd-drefnydd Hyfforddai ODA yn yr Athrofa Hyfforddiant Cyfunol fydd yn enwebu hyfforddai i dderbyn y wobr hon.

Dymuna Evan a Betty a'r teulu ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a chydymdeimlad ar yr achlysur trist o golli Robin.

Diolch hefyd i bawb am bob cyfraniad tuag at Apêl Scanner Ysbyty Gwynedd a throsglwyddwyd £1,100 er cof am Robin i'r apêl arbennig yma.

DIOLCH: Dymuna Mrs Delia Parry, Plas Tirion, ddatgan ei gwerthfawrogiad i'r teulu, ffrindiau a chymodgion am y cardiau, blodau ac anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed. Diolch i bawb am bob caredigrwydd.

Cyfarchion i Mrs Parry ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed.

Daeth gaeaf i Eryri
I lwydo bro a bryn,
Gan chwyrnu rhwng y brigau
A hogi tonnau'r llyn
Ond gwn am flodyn tlysa 'rioed
Sydd heddiw'n bedwar-ugain oed.

Ar ganiad utgorn gaeaf
Daeth Delia fach i'r byd,
Yn anrheg i'w rhieni
O fewn i'r cartref clyd,
Yn Rhesdai Eilian, dyna'r fan
A thyfodd yn swn cloch y llan.

Ac fel tymhorau'r flwyddyn
Y gwanwyn ddaeth i ben,
Daeth haf a'i ddyddiau difyr
A'i lasliw coeth i'r nen;
A maglwyd hi mewn rhwymau serch
Priodi wnaeth yr hawddgar ferch.

Gwnaed cartref, crëwyd aelwyd
Mewn bywyd llawn o swyn,
Bendithiwyd yr ymrwymiad
A phlantos annwyl, mwyn;
Ond och' daeth cwmwl du ei drem
A'r aelwyd gafodd golled lem.

Do, drylliwyd eu breuddwydion
Gan gnul y gloch o dŵr
Yr Eglwys yn Llanberis
Fe gollwyd tad a gŵr;
Gadawyd mam mewn ing a loes
Gadawyd hi i gario'r groes.

Ond llwyddodd er y golled,
A bu yn dad a mam
Ni chafodd epil Delia
'Run niwed na'r un cam,
Yn glod i'r fam, mae'r plant i gyd
Yn ddinasyddion gwych i'r byd.

Dyma ddau lun o blant Ysgol Dolbadarn, Llanberis a anfonwyd gan Mrs Myfanwy Parry, 'Glendale', Stryd Dinorwig, Caernarfon (gynt o Lanberis). Mae'n tybio i'r lluniau gael eu tynnu yn y 1930'au cynnar, ac mai'r athrawes yn un o'r lluniau yw Miss Price-Jones. Tybed oes rhai o'r darllenwyr all ein helpu?

Mae heddiw'n ddydd arbennig
I ben y teulu llon,
Brenhines yr hen aelwyd
Yw'r fam annwylaf hon.
Blynyddoedd dedwydd foed i chwi,
Hyn yw ein gwir ddymuniad ni.
John Huw Hughes Tachwedd 7fed, 1986

Angharad Tomos gyda phlant Ysgol Dolbadarn.

Wythnos Llyfrau Plant 1986

Bu'r awdures Angharad Tomos yn ymweld â dwy ysgol yn nalgylch yr "Eco" yn ystod yr wythnos uchod ym mis Hydref. Ymwelodd ag ysgolion Dolbadarn a Chwm-y-Glo i siarad am, ac adrodd ei straeon i'r plant ieuengaf. Angharad enillodd wobr Tir Na Nog eleni am y llyfr gorau i blant yn y Gymraeg.

Trefnwyd yr ymweliadau gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd gyda nawdd o Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

SIBRYDION O'R YSGOLION
YSGOL DOLBADARN
Ar nos Wener, Tachwedd 7fed, cynhaliwyd Ffair Gaeaf yn yr Ysgol. Er bod y tywydd yn anffafriol, daeth cynulliad da iawn o ffrindiau ac ardalwyr y pentref i gefnogi'r fenter. Dymuna'r Pennaeth mewn Gofal (Mr Selwyn Pritchard) ddiolch i'r Athrawon am eu gwaith bendigedig cyn ac yn ystod y Ffair, i Staff y Gegin am eu parodrwydd gyda'r lluniaeth, i'r Cynghorydd Francis Jones, Y H, am agor y Ffair; hefyd i'r llu o gyfeillion a roddodd eu hamser prin gyda'r stondinau. Diolch hefyd i gyfeillion yr ysgol am eu rhoddion gwerthfawr tuag at y Ffair. Gwnaethpwyd elw o £840 tuag at Gronfa'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Ar ddydd Iau, Tachwedd 13 daeth Mr John Owen o Lanrug i'r ysgol. Gŵr bonheddig yw Mr Owen sydd wedi colli ei olwg a daeth a'i gi tywys o'r enw Owi i gyfarfod y plant. Pwrpas yr ymweliad oedd ceisio codi arian i rywun arall dall gael ci. Mae'r plant wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn casglu bob math o ffoil a topiau poteli llefrith ar gyfer y fenter. Cafwyd prynhawn difyr gyda'r plant yn gofyn bob math o gwestiynau diddorol i Mr Owen.

DRAENOG

Da yw clywed am wahanol aelodau o'n cymdeithasau lleol yn casglu at ei gilydd i gynnal gwahanol weithgareddau gwirfoddol, Byddwn ninnau yn yr 'Eco" yn falch iawn o'r cyfle i roi sylw i'r gweithgareddau rheini. Ond cofiwch da chi, mai papur bro CYMRAEG yw "Eco'r Wyddfa". Anfonnwyd hysbyseb uniaith Saesneg i ni y mis hwn gan un o'r cymdeithsau lleol hyn. Am y tro, ac oherwydd fod tymor ewyllys da ar ein trothwy, fe'i cyfieithwyd gennym – a'i gynnwys, yn y rhifyn hwn, Ond y tro nesaf . . . .

CANTORION LLANBERIS
yn cyflwyno
CYNGERDD NADOLIG
Nos Sul, Rhagfyr 14eg
yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis
am 7,30pm
Unawdwyr Gwâdd
Arweinydd: Linda Griffith
Organyddes: Menna Leyshon
Tocynnau £1.00 (plant am ddim)

TACSIS WEBB
22 BRYNTIRION PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 870145
Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd
Gwaith Contract

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

Cynhelir gwasanaeth y Nadolig eleni eto yn Eglwys Santes Helen, nos Fercher, Rhagfyr 17, am 6.00 pm. Croeso cynnes i bawb. Fe wneir casgliad at achosion da.

Fe gawsom gwmni Mr Eirion Watkins o'r Coleg Normal am dros fis o amser, ac rwyn siŵr ei fod wedi mwynhau ei hun yng nghwmni Safon 2,3 a 4 – cymaint ag a wnaeth y plant ei gwmni ef. Dymunwn pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

CAPEL BOSRA: Tachwedd 9fed, sef Sul y Cofio, cafwyd gwasanaeth bychan yn yr Ysgol Sul i gofio am y bechgyn gwrol a syrthiodd yn y ddau ryfel byd, yna am 10.45 cafwyd gwasanaeth undebol yn yr Eglwys a chafodd pob plentyn gyfle i roi croes fach bren wrth yr allor.

Am 2.00 o'r gloch bedyddiwyd Rhys, mab bach Bronwen a Kevin Jones, Cae Glas, Rhiwlas.

EGLWYS SANTES HELEN: Ymunodd aelodau Ysgol Sul Bosra âphlant yr Eglwys, fore Sul y Cofio, Tachwedd 9fed.

SGANIWRAMA: Aeth criw Llanbêr a ninnau i Westy Padarn Lake, Tachwedd 8fed i weld fideo o'r cyngerdd – a chawsom noson i'w chofio. Mae'r fideo ar gael i unrhyw un sy'n dymuno'i weld am £1 y noson – elw yn mynd at apêl y Sganiwr.

TÂN GWYLLT: Taniwyd y goelcerth am 6.30 a chafwyd arddangosfa deilwng o dân gwyllt. Fe gafodd y plant sudd oren, cŵn poeth, creision a fferins, a'r oedolion gawl a chŵn poeth. Diolch i Wendy, Elin a Gwenda am drefnu'r noson ac i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd. Gwnaed elw o dros £13 i'r Ysgol Feithrin.

LLONGYFARCHIADAU: Cyfarchion arbennig i nain a taid, sef Eirlys a Nathan Jones ar ddathlu eu priodas ruddem ar Ragfyr 11, oddi wrth Jonathan a Ken. Llongyfarchiadau i chwi eich dau a phob bendith.

CROESO cynnes i'n plith i Matthew, mab bychan Wendy a Dafydd, Waen. Llongyfarchiadau i chwi, ac i nain a taid sef Shirley ac Eurwyn Jones, Camelot.

LLONGYFARCHIADAU i Timothy Jones, Ty'n Gerddi a Dilwyn John Williams, Bryntirion ar gyrraedd 21ain.

GWELLHAD: Rydym yn falch o glywed fod Elisabeth Jones, Iola Jones a Carol Adlam yn well wedi triniaeth yn yr ysbyty.

Dymunwn adferiad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref – brysiwch wella i gyd erbyn y Nadolig.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn y mis hwn eto â Mrs Rees Thomas, Bod Awen, a Mrs B E Hughes, Bryn Hyfryd o golli nai a chefnder.

DIOLCH: Dymuna Elisabeth Jones ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau da wedi triniaeth yn yr ysbyty.

DIOLCH:Dymuna Mrs B E Hughes ddiolch i blant a staff Ysgol Tan y Coed am yr anrhegion a'u dymuniadau da ac hefyd i'w theulu a'i ffrindiau i gyd.

"O LAW I LAW": Nos Iau, Tachwedd 6ed, aeth 60 o'r pentref i Theatr Gwynedd i weld addasiad o nofel gyntaf T Rowland Hughes. 'Roedd pawb yn unfrydol ei bod yn llwyddiant a mwynhad mawr, "yn gymysgedd gelfydd o ddoniolwch a theimladrwydd a chymeriadau da."

Do cafwyd perfformiad caboledig o'r safon uchaf, gan ddwyn atgofion melys a chwerw i'r rhai hŷn ohonom.

CALANGAEAF: Hydref 31ain, cafwyd noson hwyliog iawn yn Neuadd yr Eglwys. Bu'r plant yn brysur yn gwneud lluniau gwrachod ac ysbrydion, gwisgo'i fyny, a gwneud swynion o bob math. Bu'n dasg anodd i Anwen Jones eu beirniadu ac fe hoffodd y gystadleuaeth "y swyn gorau" yn arw iawn a chanmolodd y plant am eu gwaith da. Cafodd pawb gawl poeth a thafell o fara ffres. Diolch yn fawr iawn i Anwen am feirniadu mor deg ac i bawb a gyfranodd ac a gefnogodd y noson – bu'n llwyddiant gan na fu difrod o gwbl yn y pentref ac rydym yn diolch ichwi blant am ddod i'r neuadd.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

YR URDD: Ymaelododd dros 50 o blant nos Fawrth, Hydref 28ain. Calonogol iawn oedd gweld cynifer o blant dros 12 oed wedi ymuno eto eleni. I orffen y noson cafwyd gêm o chwilen.

Cafwyd cwis yng ngofal Tegid Roberts, nos Fawrth Tachwedd 4ydd. Rhanwyd y plant yn bedwar tîm cyfartal, sef Tîm Eryri, Gwyrfai, Eilian ac Elidir. Tîm Eilian a enillodd a chawsant wobr o "oren siocled" i'w rannu gan Tegid Roberts a bocs o "wine gums" i'r ail, a chwarae teg iddo, "da-da" ar gyfer pob plentyn a rhiant oedd yn bresennol. Diolch yn fawr Tegid am baratoi y cwis mor fanwl ac am ofalu am wobr i bob plentyn.

Tachwedd 11eg daeth Islwyn Williams atom a chafwyd noson ddifyr yn ei wylio yn tynnu lluniau anifeiliaid gwyllt yn eu cynefin. Daeth nifer o blant â'u llyfrau Adar i'w llofnodi gan Islwyn, ac fe holai nifer ef am gyfres debyg am anifeiliaid. Cofiwch fod un llyfr Blodau allan eisoes a gobeithir y daw'r ail allan erbyn y Nadolig. Diolch yn fawr ichwi Islwyn am noson ddifyr iawn.

Ymweliad gan Adran Bentref Rhiwlas gafwyd nos Fawrth, Tachwedd 18 yn Neuadd yr Eglwys, – tua 90 o blant o 7–15 oed. Rhanwyd y plant yn ddau dîm, sef Eryri ac Eilian. Eryri a orfu gyda 58 o farciau. Diolch i Mr Glyn Evans am baratoi cwis amrywiol a difyr a diolch i chwi blant Rhiwlas am ddod.

Dyma'r gweithgareddau tan y Nadolig:-

1. **Tachwedd 24ain – Nos Lun** – ymweld ag Adran Penllyn i gymryd rhan mewn cwis.
2. **Tachwedd 25ain** – Noson yng nghwmni Miss Phyllis Ellis.
3. **Rhagfyr 2il** – Fideo'r Urdd a sgwrs gan Jên Williams, Trefnydd Eryri.
4. **Rhagfyr 9fed** – Gwaith Llaw Nadolig gyda Pat ac Anita Jones, Brynrefail.
5. **Rhagfyr 16** – Parti Nadolig yn Neuadd yr Eglwys.

YSGOL TAN-Y-COED: 'Pnawn Gwener, Hydref 31ain, cafwyd gwasanaeth i ffarwelio ag Anti Bet, ein cogyddes ers dros bymtheng mlynedd. Cafwyd eitemau o ganu ac adrodd gan y plant i gyd, a gair o deyrnged gan Mr Len Jones a Mr Gwyn Mowll. Anfonwyd gair o ddiolch iddi am ei gwasanaeth gan Mr Glyn Evans ar ran Llywodraethwyr yr Ysgol gan ddymuno ymddeoliad hapus. Diolchwyd iddi hefyd gan Mrs Elinor Williams ac estynodd groeso cynnes i'r gogyddes newydd, sef Mrs Janice Jones. Cyflwynwyd blodau sidan iddi gan Wena, y plentyn ieuengaf, tâp o'r gwasanaeth gan Vincent, a chyflwynwyd anrheg plant yr ysgol gan Andrea ac anrheg athrawon yr ysgol ynghyd â Mr Len Jones, gan Sioned Lewis a Hefina.

Ein dymuniadau gorau ichwi Anti Bet, a chroeso cynnes i chwithau Anti Janice.

Cyflwyno blodau i Anti Bet.

CLWB YR HEULWEN: Mawrth, Tachwedd 18, llongyfarchwyd Wendy ar enedigaeth mab, ac Eurwyn a Shirley ar fod yn daid a nain. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs G Thomas wedi torri ei braich. Cydymdeimlwyd â Mrs B Evans o golli brawd yng nghyfraith yn Llanberis ac hefyd â Mrs Mair Williams, Bethania Villa, Llandudno o golli merch. Bydd y swper blynyddol yng Ngwesty Gwynedd, nos Fawrth, Rhagfyr 2il. Rhoddwyd y te gan Mrs Nesta Jones, Mrs I M Jones a Mrs P Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Porter, Enillwyd y raffl gan Mrs I M Jones. Bydd y cyfarfod nesaf **MAWRTH 1987**

CLWB CANT: Enillwyr Clwb Cant mis Hydref oedd 1. Marian Griffith, 2. Phyllis Ellis, 3. T W Griffith.

Bydd criw o garolwyr yn dod o gwmpas y pentref, **nos Wener, Rhagfyr 19** o Arwel, Tan Gaer, i'r Waen, a **nos Lun, Rhagfyr 22**, o Bryn Eglwys i Perthi. Byddwn yn cychwyn am 6.00. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Cafwyd Parti Coluro yng Nghlwb Eryri, nos Wener, Tachwedd 14. Gwnaed elw o tua £40 a charem ddiolch i Ann Paterson ac Elisabeth Jones am drefnu'r noson ac i Elin Thomas am gynnal y noson. Bu Myra Griffith in ffodus iawn o gael coluro ei hwyneb.

DIOLCH: Dymuna'r Ysgol Feithrin ddiolch i Elin, Gwenda a Wendy am yr arian a gasglwyd yn ystod Tân Gwyllt y pentref.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da i Dylan Griffith, Llys, a Meinir Evans, Hendŷ, Cricieth ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: i Eurgain Haf ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod yr Ysgol. Ei ffrind Angharad o Fethel oedd yr enillydd. Llongyfarchiadau hefyd i bawb fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod.

CYFARCHION NADOLIG: Dymuna Nellie May Pritchard, gynt o 4 Rhes Brynhyfryd, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w chyn-gymodgion a'i chyfeillion yn ardal yr Eco.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

YR ŴYL DDIOLCHGARWCH: Ddydd Sul, Hydref 26ain cynhaliwyd oedfaon blynyddol yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn Eglwys Brynrefail M.C. Yn ystod gwasanaeth y bore gweinyddwyd y Cymun gan y Gweinidog, Y Parch John Morris. Ar derfyn yr oedfa, bedyddiwyd Emyr Vaughan, mab Mr a Mrs Haydn Vaughan Jones, Gorswen. Cafwyd oedfa lewyrchus yn yr hwyr yng nghwmni plant ac ieuenctid yr Eglwys. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan athrawon yr Ysgol Sul. Cymerwyd rhan gan Rhian Davies, Eluned Roberts, Meinir a Marian Jones, Glenda a Paula Walters, Nicola Houston, Alwen a Caron Jones, Lynette Ruchy, Einir, Catrin ac Owain Gwyn. Traddodwyd anerchiad pwrpasol gan y Gweinidog. Hyfrydwch hefyd yn ystod yr oedfa oedd cael gwahodd aelodau newydd i'n plith. Derbyniwyd tocynnau aelodaeth Mr a Mrs Dafydd Hughes, 12 Trem Eilian a oedd yn gyn-aelodau o Eglwys Tanycoed ac estyn croeso cynnes iawn iddynt i Frynrefail. Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Mr R W Evans a'r organyddes oedd Miss Lowri P Roberts.

DATHLU PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Janet Jones, 5 Trem Eilian ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar Dachwedd 3ydd. Dymuna Janet ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur.

MARWOLAETH: Ddydd Mawrth, Tachwedd 4ydd, bu farw Mrs Jennie Williams, Bryn Melyn yn 66 oed. Bydd yn chwithdod mawr ei cholli o'n plith yn y pentref. Er yn hannu o Glwt-y-bont, treuliodd y rhan helaethaf o'i hoes yma ym Mrynrefail ers pan ymbriododd a Mr O Jeffrey Williams. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys M.C. Brynrefail lle bu'n gwasanaethu wrth yr organ a bu ei hymroddiad a'i balchder fel gofalwraig yr adeiladau gyda'i phriod yn un a edmygid gan yr oll o'r aelodau. Bydd ei lle yn wag yng nghyfarfodydd gwahanol gymdeithasau'r pentref – Sefydliad y Merched a Chlwb y Mamau, ond yn fwyaf oll yn ei chartref a'r ardd lle bu'n amlwg ôl ei llaw. Bu'r angladd cyhoeddus yng Nghapel Brynrefail ddydd Gwener, Tachwedd 7fed, ac yn dilyn yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris (gweinidog) gyda Miss Lowri P Roberts wrth yr organ. Cynrychiolwyd yr Eglwys gan y Mri Elfed Roberts, R Wyn Evans, Bertie Roberts a Gwilym W Williams (blaenoriaid). Y cludwyr oedd John, Bryn, Llewelyn, Bertie, Glyn ac Emyr. Y galarwyr oedd Mr O J Williams (priod), Mr a Mrs John S Williams (mab a merch yng nghyfraith), Darren Williams (ŵyr), Mr Bryn Williams (mab), Mr Llewelyn Roberts (nai), Mrs Rhian Jones (nith), Mr a Mrs Glyn Roberts a Mrs Helen Morris ynghyd â nifer o ffrindiau agos. Anfonwyd blodau gan y teulu a derbyniwyd rhoddion tuag at Ymchwil y Cancr. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt ac am bob rhodd dderbyniwyd. 'Roedd trefniadau'r angladd yng ngofal Mr Myrddin Pritchard, Llanberis.

NOSON GUTO FFOWC: Cafwyd noson gyffrous fel arfer yn y Cae Chwarae ar Dachwedd 5ed a daeth tyrfa dda ynghyd. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant – y rhai a fu'n brysur dros yr wythnosau yn adeiladu'r goelcerth, pawb gyfrannodd i bwrcasu'r tân gwyllt a'r rhai fu'n eu tanio mor gelfydd i wneud arddangosfa werth chweil! Diolch hefyd i aelodau Clwb y Mamau am luniaeth nodedig o flasus.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Tachwedd 17eg, cynhaliodd y gangen ei chyfarfod blynyddol. Yr oedd Mrs Maud Williams, V C O yn bresennol. Etholwyd y canlynol yn swyddogion: Llywydd: Mrs Pat Jones, Ysgrifennydd: Mrs Carol Houston; Trysorydd: Mrs Jennie Hughes. Diolchwyd i Mrs Val Davies am ei gwasanaeth fel cyn-drysoryddes. Hi hefyd a gyflwynodd wobr y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Linda Humphreys. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Mrs Jennie Williams, Bryn Melyn yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain. Eleni cynhelir Rali Garolau Sefydliad y Merched Gwyrfai yng Nghapel Brynrefail, nos Fawrth, Rhagfyr 16eg am 7.30 o'r gloch.

FFAIR NADOLIG: Cynhelir Ffair Nadolig yn y Festri nos Iau, Rhagfyr 11eg am 7.30 o'r gloch. Tâl mynediad fydd 30c i oedolion a 15c i blant. Bydd yr elw at Gronfa'r Capel ac mae chwiorydd a ieuenctid yr Eglwys wrthi'n brysur yn trefnu amrywiol weithgareddau. Bydd lluniaeth, bob math o stondinau a gemau i'w gwneud yn noson wrth eich bodd. Bydd y Pwyllgor yn falch o unrhyw gyfraniad ac o'ch cefnogaeth ar y noson.

CINIO NADOLIG: Bydd Cinio Nadolig blynyddol Clwb Gweithgareddau'r pentref nos Sadwrn, Rhagfyr 20fed yn Henllys Hall, Biwmaris. Os ydych yn bwriadu mynd, cysylltwch â Mr D G Ellis, Gweledfa.

APÊL Y SGANIWR: Cafwyd noson lwyddiannus yn yr ysgoldy nos Lun, Hydref 27ain dan ofal Mrs Pat Jones a Miss Anita Jones, Cae Coch. Noson "Gwin a Gateaux" oedd eu syniad dyfeisgar y tro hwn i godi arian i Gronfa'r Sganiwr. Yn ystod y cyfarfod cafwyd arddangosfa o grefftau 'Calon Lân' – cynnyrch gwaith llaw cartref Pat ac Anita ynghyd â nwyddau eraill addas fel anrhegion, yn arbennig yr adeg hon o'r flwyddyn a'r Nadolig yn nesau. Rhoddwyd gwobrau raffl gan Mrs Beti Owen (hamper), Mrs Pat Jones (gwin); Mrs Carol Houston (gateaux), a Miss Lowri P Roberts (tun bisgedi), ac fe'u henillwyd gan Mrs Rhian Jones, 3 Trem Eilian; Mrs Helen Sutherland, Deiniolen; Mrs Helen Jones, 5 Trem Eilian a Mrs Gwyneth Williams, Bethel. Gwnaed elw o £80 a mawr yw ein diolch i'r trefnwyr am eu hymdrech ac i bawb a gefnogodd yr achos teilwng hwn.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-Coed (Llanberis 870030)

COFION: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at Mrs Jennie Hughes, Oerddwr sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth law-feddygol i'w choes ar ôl damwain, ac at ei chymdoges, Mrs Megan Williams, Dwyfor a gafodd anhwyldeb yn ddiweddar ond sydd yn awr yn gwella, ac at bawb arall o'r ardal, yn oedolion a phlant a all fod yn wael neu wedi eu caethiwo i'w cartrefi oherwydd y tywydd garw.

Eleni eto trefnwyd noson o hwyl a rhialtwch i gofio Guto Ffowc gan Mr a Mrs Chohan, Pant Clyd. Taniwyd coelcerth anferth, a mwynhawyd arddangosfa o amrywiol dannau gwyllt, heb anghofio'r barbaciw.

Yn ffodus iawn, wedi tywydd garw cafwyd hindda i fwynhau'r cyfan yn yr hwyr.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

DIOLCH: Dymuna Vera ac Alun Roberts, 10 Erw Wen, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar enedigaeth eu merch fach Dona Mair, chwaer i Ceri ag Elfyn.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Williams, 'Refail, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 95 oed ar Dachwedd y 7fed. Dymunwn lawer blwyddyn eto o iechyd a hapusrwydd i chwi Mr Williams.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Elizabeth Ellen Owen, Llwyn Celyn, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 29ain, ar ôl gwaeledd hir.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Disgwylir y pregethwyr canlynol dros y mis nesaf am 2 o'r gloch y prynhawn:
Tachwedd 30 – Miss Gwenda Jones;
Rhagfyr 7 – Parch J D Roberts;
Rhagfyr 14 – Mr Gwilym Hughes.
Hefyd cynhelir yr Ysgol Sul yn y Festri am 2 o'r gloch. Ar y Sul cyn y Nadolig, bydd Gwasanaeth y plant am 5.30 yr hwyr.

AR WERTH: Cwt cwningen mewn cyflwr da. Ffoniwch Caernarfon 3536.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

CROESO ADREF i Mrs Rhian Pritchard sydd wedi bod yn yr ysbyty.

APÊL Y SGANIWR: ar hyn o bryd yw £1,309.

Fel newydd . . .
BEIC ELSWICK
ar gyfer geneth 5-9 oed: £45.
Ffoniwch
CAERNARFON 5220

PERERINDOD I ISRAEL
Chwefror 14eg 1987 am 9 niwrnod: £299
Gan ymweld â Jerusalem, Bethlehem, y Môr Marw a Galilea.
Ymholiadau: y Parch Trefor Lewis, Llys Myfyr, Deiniolen
(Ffôn: 870565)

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

C & D.WAGER
Llythyrdy
BRYNREFAIL
Ffôn: LLANBERIS 870241
Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau Llyfrau Cymraeg Llysiau Melysion Tybaco

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

BEDYDDIO: Yng Nghapel Mawr ar Hydref 26ain bedyddiwyd Rhian Angharad, merch Ceris a Dawn Jones, Glanfa, Llanrug, gan y gweinidog, y Parch John Morris.

GWELLHAD: Dymunir gwellhad buan i Mr Huw Thomas, Gwenallt ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

BEDYDDIO: Bedyddiwyd Emma Louise, merch Gwyn ac Anne Parry, Gwanwyn, yng Nghapel Mawr ar Dachwedd 2il gan y gweinidog y Parch John Morris.

YSBYTY: Dymunir gwellhad buan i Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Stad Hafan Elan sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad i Mr Gwilym Williams, Llys Idris ar farwolaeth ei dad yn Rhosgadfan.

CYNGOR EGLWYSI RHYDDION: Llongyfrachiadau i Mr Emrys Owen, 9 Stad Hafan Elan ar gael ei ethol yn llywydd newydd y Cyngor Eglwysi Rhyddion yn Llanrug.

YMADAEL: Dymuniadau gorau i'r Parch Aled Jones Williams ar ei benodiad yn Rheithor Machynlleth. Hyderwn y bydd yn hapus iawn yn ei blwyf newydd.

GWASANAETH Y CADOEDIAD: Cynhaliwyd gwasanaeth yn y Sefydliad Coffa, fore Sul, Tachwedd 9fed o dan arweiniad y Parch Aled Jones Williams. Cymerodd Seindorf Arian Llanrug ran yn y gwasanaeth hefyd.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cyfarfu chwiorydd Capel Mawr ar nos lau, Tachwedd 6ed. Y Llywydd oedd Mrs Jean Davies, Rhyd-y-Delyn. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Mrs Mair Jones, Ogwen. Cynhelir Ffair Nadolig y Chwiorydd ar nos lau, Rhagfyr 4ydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Jean Davies, Mrs Parry, Morannedd a Miss Roberts, Ganllwyd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Daeth cynulliad da i gyfarfod y Gymdeithas nos lau, Tachwedd 13eg gyda sgwrs ddiddorol a llawn hiwmor gan Mrs M E Jones o Gricieth, ar y Tri Chymeriad Gwreiddiol. Llywydd y noson oedd Mrs Nansi Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs J Davies. Rhoddwyd y te gan Mrs N Jones a Mrs L Owen, a diolchwyd iddynt gan y Parch W O Roberts. Bydd y cyfarfod nesa ar nos lau, Tachwedd 27ain, noson o Hawl i Holi.

Dyddiadur y mis:-

Rhagfyr 11 – Noson efo Cymdeithas Pontrhythallt yn Capel Mawr. Y noson dan ofal Mr Arwel Jones, Penisarwaun

Rhagfyr 21 – Noson o Garolau yng Nghapel Mawr am 5.30. Llywydd y Parch John Morris, B.D.

Mae cerddor o Lanrug ar record newydd ar gyfer y Nadolig. Mae Iwan Roberts, 4 Talybont yn aelod o'r grŵp '4 YN Y BAR', ac mae eu record newydd "Newid Cynefin" newydd gyrraedd y siopau. Ymysg y caneuon a'r alawon arni y mae trefniadau newydd o'r hen ffefrynnau "Bugail Aberdyfi" a "Cartref", yn ogystal â nifer fawr o gyfansoddiadau newydd sbon gan yr aelodau yn cynnwys dilyniant o dair alaw newydd sbon danlli gan Iwan sydd yn gysylltiedig â'r ardal.

Yn ôl pob sôn, gellir gweld Ynys Enlli a Bryniau Iwerddon o gopa'r Wyddfa. Dyna fu'n ysbrydoliaeth i Iwan gyfansoddi "Cwm Brwynog", "Croesi'r Swnt" a "Bryniau Wicklow".

APÊL YMCHWIL Y GALON: Cafwyd Nonon Goffi Iwyddiannus yng Nghwesty'r Royal, Caernarfon nos lau, Hydref 30ain, pryd y cyflwynwyd siec am £4,750 i Mr D Heaseman, Trefnydd dros Gymru, gan Miss Mary Richards, cadeirydd y gangen. Wrth dderbyn y siec dywedodd Mr Heaseman fod yr arian yn mynd tuag at archebu offer cyfrifiadurol newydd i fesur straen, i'w ddefnyddio gan y meddygon yn Ysbyty Gwynedd. Dymuna y pwyllgor ddiolch i bawb o fro'r Eco am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, hefyd am yr arian a dderbyniwyd er cof.

DYMUNA Mrs Jane Williams a Miss Annie Parry, 14 Hafan Elan, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

MERCHED Y WAWR: Yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fawrth, Tachwedd 11fed, bu aelodau'r gangen yn gwneud eu siopa Nadolig! Daeth Mrs Pat Jones a'i merch Anita yno i ddangos anrhegion o bob math. Gwaith llaw celfydd eu hunain oedd llawer o'r cynnyrch. Cafwyd noson hamddenol a phleserus iawn yn eu cwmni, fel y mynegodd Mrs Margaret Parry wrth ddiolch iddynt.

Anfonwyd cofion at bob un o'r aelodau sydd yn sâl ar hyn o bryd.

Diolchodd Mrs Heulwen Evans i'r merched a baratodd baned a bisged, sef Mrs Butler, Miss Humphreys, Mrs Roberts, Mrs M Williams a Mrs K Pritchard. Mrs Marina Williams enillodd y raffl y mis hwn.

Nos Fawrth, Rhagfyr 9fed bydd cinio Nadolig yng Ngwesty Padarn Lake. Bydd y bws yn cychwyn am 7.15 o'r sgwâr.

LLONGYFARCHIADAU i David Williams, y Berllan ar ennill ohono y Darian yn Sioe Blodau Mihangel (Chrysanthemum), Penygroes. Enillodd Carolyn a Dylan hefyd wobr yn Adran y Plant.

AR GOLL: Mae Elin o Bryn Moelyn wedi colli Huwcyn ei chath fach ers nos Sadwrn ystormus Tachwedd 8fed. Cath ddu a gwyn, pedair pawen wen a smotyn du dan ei ên.
Unrhyw wybodaeth ffonier Caernarfon 4598.

Adran Urdd Ysgol Gynradd Llanrug yn dathlu Calan Gaeaf.

ARIAN GLOYW

Catrin Thomas yn cyflwyno siec i Mr John Owen ar ran Ysgol Gynradd Llanrug. Arian Diolchgarwch yr ysgol a chynyrch casglu papur arian i brynu Ci Tywys y Deillion.

EISTEDDFOD LLANRUG: Mewn cyfarfod arbennig o Bwyllgor Eisteddfod Llanrug a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 18fed o Dachwedd yn yr Ysgol Gynradd, penderfynwyd mai Eisteddfod Bentref a gynhelir y flwyddyn nesaf, a chadarnhawyd fod Neuadd Ysgol Brynrefail ar gael ar ddydd Sadwrn, Hydref 10fed 1987. Bydd y Pwyllgorau Cerdd, Celf a Chrefft, a Llên ac Adrodd yn cyfarfod ar nos Fercher, 7fed o Ionawr 1987 yn yr Ysgol Gynradd i drefnu testunau. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb sydd â diddordeb yn yr Eisteddfod i fod yn bresennol ar y noson. Gwneir apêl arbennig ar i rieni plant oedran ysgol gynradd fod yn bresennol.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas ar Dachwedd 4ydd, gyda Mr Ifor Williams, Hafan Elan yn llywyddu, cafwyd sgwrs ar "Y Gymdeithas Chwarelyddol yng Ngwynedd" gan y Dr Dafydd Roberts, Llanberis. Cafwyd sylwadau pellach gan Mr Emrys Owen a'r Parch Erfyl Blainey.

Ar y 18fed o Dachwedd, gyda Mrs Iola Butler yn llywyddu, cafwyd cyfarfod amrywiaethol dan ofal yr aelodau. Cymerwyd rhan gan Mrs Williams, Bod Fair, Mrs C Williams, Hafan Elan, Miss Megan Humphreys, Mr Emrys Owen, Parch Erfyl Blainey ac yn absenoldeb Mrs W A Jones, darllenodd Mrs E W Thomas rai o 'Ffraethebion y Chwarelwr' wedi eu dethol gan Mrs Jones. Diochwyd i bawb gan Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd.

GWELLHAD BUAN: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Ena Jones, Bod Ifor a Mrs Jennie Hughes, Oerddwr, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DERBYNIWYD yr englyn canlynol i longyfarch Mrs Mary Lloyd Williams ar ddathlu ei phen-blwydd yn 84, ddydd Sul, Tachwedd 16 eleni, oddi wrth y Cyn Archdderwydd Jams Niclas, Cofiadur yr Orsedd, a'r teulu.

Hwn yw'r Sul uwchlaw'r Suliau – un heb lûdd,
Dydd eich pen-blwydd chwithau:
Mwyn ydyw'r Dymuniadau
'Nawr i'r hir oes i barhau.

Jams Niclas

DIOLCH: Dymuna Hugh Thomas, Gwenallt, ddiolch yn gynnes iawn i'r meddygon a staff Ysbyty Gwynedd. Hefyd i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

NOSON O GAROLAU
gyda Seindorf Llanrug
Ar nos Lun, Rhagfyr 22ain am 7 o'r gloch, cynhelir noson o ganu carolau yn Ystafell y Seindorf, Llanrug. Bydd mins pei a phaned ar gael am bris rhesymol.
Croeso cynnes i bawb

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes
MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

EISTEDDFOD YS

Ar ôl seibiant o flwyddyn, pan na chynahliwyd gweithgareddau o unrhyw fath y tu allan i oriau'r ysgol, fe ail ddechreuwyd yr Eisteddfod nos Iau, Tachwedd yr 20fed yn Neuadd yr Ysgol. Bu'n hynod o lwyddiannus yn ôl y farn gyffredinol, a'r safon yn uchel iawn ym mhob cystadleuaeth. Yn wir, gwnaed datganiad gan Mrs Nia Jones, y beirniad Cerdd, fod safon y gerddoriaeth yn yr ysgol yn uwch na'r un sefydliad y bu'n beirniadu yno. Barn y beirniad Llên ac Adrodd, Mr Wil Lloyd

Seremoni Cadeirio Angharad Price — dawnswyr Ysgol Gynradd Llanrug yn cyflwyno'r ddawns flodau.

Hen Feic Peniffardding fy Nhaid — dyna oedd y gystadleuaeth i bartion bechgyn d

Dylan Wyn Williams — enillydd Unawd Offeryn dosbarth 2 a 3.

Tammi Jones, enillydd y gystadleuaeth adrodd i ddosbarthiadau 1 a 2

Ffion Jon Williams — enillydd mwyaf o farciau i ddosbarthiadau 1,2 a 3 ac enillydd yr Unawd i ferched dosbarth 2 a 3.

Sioned Williams — Enillydd Adrodd Cymraeg a Saesneg, dosbarthiadau 3 a 4.

Y Parti Cyd-Adrodd Buddugol — Elidir

Côr Deulais Gwyrfai — 4ydd yn y gystadleuaeth.

Y Grŵp Pop buddugol.

W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

GOL BRYNREFAIL

Davies, oedd mai yma y gwelodd y disgyblion mwyaf bonheddig, cwrtais a pharod eu cymwynas ers rhai blynyddoedd.

Elidir fu'n fuddugol yn y cystadlu gyda 158 a hanner o bwyntiau, Eryri yn ail, yna Eilian a Gwyrfai yn bedwerydd. Gobeithir cynnwys ychwaneg o luniau yn rhifyn Rhagfyr, fydd allan ar y 18fed o'r mis.

barth 1 Elidir, ar y chwith ddaeth i'r brig, a phedwerydd oedd tŷ Gwyrfai, ar y dde.

Parti bechgyn Dosbarth 1,2 a 3 — Hen Feic Peniffardding fy Nhaid — Tŷ Eilian a ddaeth yn drydydd.

Sharon V Williams — Enillydd Unawd Werin, Unawd dosbarth 4,5 a 6 ac enillydd mwyaf o farciau dosbarth 4, 5 a 6.

Lowri Angharad Williams — enillydd yr Unawd Piano i ddosbarth 1.

Sharon V Williams — enillydd yr Unawd piano i ddosbarthiadau 4,5 a 6.

Aled Griffiths — enillydd Unawd Offeryn dosbarth 1.

Y pedwerydd yn y gystadleuaeth i gorau Cerdd Dant — Gwyrfai.

Dawnsio Disgo tŷ Elidir, ail yn y gystadleuaeth.

YN AGOR YN FUAN ...

CARTREF HENOED

Y FOELAS LLANRUG

Am fwy o fanylion cysylltwch â MEIRWEN THOMAS, CAERNARFON 4652

Mae mwy o ddewis nag erioed gan

JOHN A ROBERTA GRIFFITH

Y STORFA

SGWÂR LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Gwlân Sirdar, Patrymau, Gweill Aero

Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul

Archebwch dros y ffôn – fe'i danfonwn at eich drws

YN EISIAU . . .

TREFNYDD HYSBYSEBION ECO'R WYDDFA

Cyfle diddorol i ddod i adnabod busnesau'r fro. Cysylltir â'r Golygydd - Caernarfon 3515 neu'r Trefnydd presennol - Caernarfon 5605.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

PLAID CYMRU: Mae'r gangen leol wedi ei hail sefydlu. Mewn cyfarfod yn y Neuadd gyda Dafydd Iwan ag Elfed Roberts, Trefnydd y Blaid yn Arfon, nos Fercher, Tachwedd 19, etholwyd y swyddogion am y flwyddyn, sef Mr Dewi Rowlands, Y Ddol yn Gadeirydd; Thomas Alun Jones, Eithinog yn Is-Gadeirydd; Mr Emyr Roberts, Penrhos yn Ysgrifennydd, a Wenna Huws, 7 Penrhos yn Drysorydd. Yr Ysgrifennydd Aelodaeth yw Mr Sion Williams, Y Ddol.

Bydd y cyfarfod nesaf Rhagfyr 3ydd am 7.30 yn y neuadd. Eisoes cafwyd nifer dda o aelodau newydd a bydd cyfle i ymaelodi eto.

APÊL SGANIWR: Daeth nifer o bobl i ail gyfarfod Pwyllgor Apêl y Sganiwr, a chafwyd nifer o syniadau ynglŷn â sut i godi arian. Cynigiodd Mrs Sian Robinson gynnal Bore Coffi yn ei chartref bore Iau, Tachwedd 27, a bydd Mrs Menna Davies, Trem Eryri yn cynnal Noson Goffi cyn y Nadolig. Penderfynwyd anfon llythyr apêl i bob cartref ar ôl y Nadolig a chynnal nifer o weithgareddau eraill cyn y Gwanwyn. Bydd y cyfarfod nesaf, nos Wener, Ionawr 16.

EISTEDDFOD BETHEL

Rhai o gystadleuwyr yr Eisteddfod.

Cafwyd eisteddfod lewyrchus iawn eleni, gyda nifer dda iawn o blant, pobl ifanc a phobl yn cystadlu o 1.00 o'r gloch bnawn Sadwrn tan 11.45 y nos. Y beirniad canu oedd Mrs Rhian Roberts, Bethesda, a Mr Gareth Maelor yn beirniadu'r adrodd a'r llenyddiaeth. Mr Islwyn Jones oedd beirniad y ffotograffiaeth.

Nos Iau cynt cafwyd arddangosfa arbennig iawn o gaceni, gweu, gwnio a gwaith llaw yn y Neuadd. Y beirniaid oedd Miss Carol Price, Seion a Mr Ginsberg, Bethel. Enillwyd gwobr arbennig i'r **Llenor dan 18 oed gan Angharad Price**, a **Chadair yr Eisteddfod gan Mr Richard Lloyd Jones, Y Ddol.** Gwnaeth aelodau'r Urdd eu gwaith yn yr Orsedd yn dda iawn fel arfer.

Llongyfarchiadau mawr i ysgrifenyddes yr Eisteddfod, Mrs M G Williams ar ei llwyddiant yn Eisteddfodau Deiniolen, Dyffryn Ogwen a Harlech yn ddiweddar.

YR URDD: Trefnodd pwyllgor y gangen Noson o Dân Gwyllt eleni a bu'r fenter yn llwyddiant mawr. Diolch arbennig i bawb a gyfranodd fel unigolion mewn arian a nwyddau. Diolch hefyd i Glwb y Mamau, Clwb Bro Bethel, Clwb y Rhos a Merched y Wawr am eu cefnogaeth i'r apêl.

Bu llond bws o blant a'u rheini yng nghapel Croesywaun ar Sul yr Urdd. Gwnaeth y plant eu gwaith yn ardderchog.

Nos Iau, cawsom noson yng nghwmni Alun Taylor a sleidiau ar ei waith yn Achub ar y Mynydd. Diolchwyd iddo gan Lliwen Jones. Byddwn ym ymweld â changen Rhiwlas nos Fercher, Tachwedd 26, ac yna'n mynd i weld Sioe Theatr Bara Caws "Yr Amgueddfa Ddu" ar nos Iau, Tachwedd 27.

Nos Lun, Rhagfyr 22 bydd plant yr Urdd o Safon 3,4 a'r Ysgolion Uwchradd, ynghyd â Chôr Bethel a'r Cylch yn mynd o amgylch y pentref i ganu Carolau. Cychwynir o Benrhos am 6.30. Bydd yr arian a gesglir yn mynd at Apêl y Sganiwr.

LLONGYFARCHIADAU mawr iawn i Angharad Price ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, nos Iau, Tachwedd 21.

YSGOLION SUL Y CYSEGR A BETHEL: Nos Fercher, Rhagfyr 17 bydd plant hŷn y ddwy Ysgol Sul yn mynd i Westy Victoria, Llanberis am eu parti Nadolig.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Tachwedd 12 cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Miss Carol Price, Llys Gwynt, Seion, sy'n athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Cawsom lawer iawn o gynghorion gwerthfawr iawn ganddi ynglŷn â paratoi at y Nadolig. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Jones, Fachell. Enillwyd un raffl gan Miss K Morris, Penrhos, ac enillwyd y llall a roddwyd gan Miss Price gan Mrs Nora Parry. Gwnaed y te gan Mrs Gwyneth Jones, Mrs Sheila Roberts a Mrs M G Williams. Mae Merched y Wawr yn gwneud apêl am blancedi i'w gyrru i Affrica. Os oes gan unrhyw un blancedi nad ydych eu hangen, cysylltwch â Mrs Anne Elis, Cilgeran.

Nos Fercher, 10fed o Ragyfr, mae cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. Pris y cinio a'r bws fydd £7.25. Bydd y bws yn cychwyn am 7.15 o Benrhos. Enwau ac arian i Mrs Eirlys Sharpe, Mrs Beti Owen neu Mrs Anne Elis erbyn nos Wener, Rhagfyr 5ed.

Nos Sul, Rhagfyr 14eg, cynhelir noson o Naw Llith a Charol yn y Cysegr am 6 o'r gloch. Cymerir rhan gan blant Ysgol Bethel a Chôr Bethel a'r Cylch. Darllenir y Llithoedd gan gynrychiolwyr o fudiadau'r pentref. Yr arweinyddes fydd Miss Lowri Prys Roberts a'r cyfeilyddion fydd Mrs Rita Williams a Mrs Glenys Griffiths. Gwneir casgliad y noson at gronfa ymchwil i'r clefyd y bu Mrs Jean Foulkes yn diodde ohono, er côf am Mrs Foulkes, Tyddyn Gwndwn, oedd yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr am flynyddoedd.

Arwyn Glyn Roberts, 21 Y Ddôl, Bethel a Scott Davies, 12 Y Ddôl, Bethel, wedi cynnal Jumble Sêl yn y garej dros wyliau yr haf, ac wedi gwnweud elw o £5. Anfonwyd yr arian i Gronfa Ymchwil Cancr. Llongyfarchiadau i'r ddau.

MAJESTIC, CAERNARFON

Teilwng yw'r Oen

(seiliedig ar "Y Meseia" gan Handel)

CÔR ALAWON MENAI

gyda

EIRLYS PARRI –

SIONED MAIR – Unawdwyr

CEFIN ROBERTS –

ARWEL JONES – Llefarydd

BIL EVANS

Arweinydd Côr a Cherddorfa

DYDD SUL, RHAGFYR 14eg.

Prynhawn — 3·30 o'r gloch

Nos — 8·00 o'r gloch

PRIS: £2·00, Plant/Pensiynwyr: £1·00

Tocynnau ar werth: yn SIOP Y PENTAN, Caernarfon neu ffoniwch, Caernarfon 2708

Elw i'w rannu rhwng Y SGANIWR, Ysbyty Gwynedd, 'MAID', Caernarfon.
(MASTECTOMY AID)

EMYR JONES

PLYMAR

PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon.

3513

GWASANAETH

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser

CYNLLUN LLEOL
ARFON WLEDIG



Mae Cyngor Bwrdeisdref Arfon yn awr wedi cymeradwyo Cynllun Drafft ar gyfer y rhan honno o Arfon sydd rhwng strimyn arfordirol Afon Menai a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'n cynnwys Bethesda, Llanberis a Phenygroes a'r pentrefi a'r cefn gwlad sydd o gwmpas y prif gymunedau yma.

Mae gan yr ardal ei hunaniaeth arbennig ei hun. Mae'n un o berfeddwledydd yr laith Gymraeg a diwylliant. Mae'n cynnwys cefn gwlad ysblennydd yn ogystal a thystiolaeth o'i etifeddiaeth diwydiannol diweddar. Prif amcan y Cynllun yw diogelu a hyrwyddo'r hunaniaeth yma.

Paratowyd y Cynllun er mwyn tywys datblygu a chadwraeth yn yr ardal yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod yma gwelir cwblhau Gwibffordd yr A55 a mwy o bwysau hwyrach am newid.

Trwy gyfyngu tai newydd i'r pentrefi mwy ni fydd y Cynllun yn annog mewnfudo sylweddol i'r ardal. Mae hefyd yn cynnwys polisiau yn ymwneud â'r laith Gymraeg, Cyflogaeth, Siopa, Twristiaeth, Amgylchedd, Cludiant ynghyd â materion eraill sydd o bwys mawr i drigolion yr ardal.

Mae yna Gynllun ar gyfer pob pentref (38 i gyd) sy'n dangos sut y dylai pob cymuned gael ei ddatblygu.

Dylid pwysleisio mai Cynllun Drafft yn unig yw hwn ac fe'i newidir yn dibynnu ar farn y bobl. Ni all ddod i rym hyd nes ceir barn y bobl leol a chymdeithasau sydd â diddordeb ynddo.

Felly, yn ystod y 6 wythnos nesaf bydd y Cyngor yn dilyn rhaglen ymgynghori â'r cyhoedd i sicrhau fod pawb yn gwybod beth sydd yn y Cynllun ac yn cael cyfle i roi sylwadau. Bydd y rhaglen yn cynnwys y canlynol:-

1. Cyhoeddir y Cynllun yn y Wasg.
2. Bydd pob teulu a busnes yn yr ardal yn derbyn Taflen Wybodaeth am y Cynllun (mae mwy nag 11,000 o gyfeiriadau ar y rhestr).
3. Bydd carafan symudol fydd yn cynnwys arddangosfa'n mynd o gwmpas yr ardal am gyfnod o 4 wythnos yn dechrau'r 18fed o Dachwedd, 1986, ac yn ymweld â'r pentrefi mwy i gyd. Bydd y garafan yn cynnwys mapiau a gwybodaeth i'w cymryd oddi yno a fideo am yr ardal.
4. Bydd copïau o'r Cynllun ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd lleol.

SUT YR EFFEITHIR AR BENTREFI'R FRO?

CAEATHRO

* Dyrannu 1 acer o dir ar 1 safle ar gyfer tai.
* Darparu ar gyfer oddeutu 6 safle mewnlenwi.

CWM Y GLO

* Dyrannu 0.87 acer o dir ar 2 safle ar gyfer tai.
* Darparu ar gyfer oddeutu 3 safle mewnlenwi.

DEINIOLEN/CLWT Y BONT

* Dyrannu 6.2 aceri o dir ar 8 safle ar gyfer tai.
* Darparu ar gyfer oddeutu 3 safle mewnlenwi.
* Dyrannu 0.5 acer o dir ar gyfer safle adloniadol.
* Dangos mannau agored ddylid eu cadw.

LLANBERIS

* Dyrannu 6.75 aceri o dir ar 9 safle ar gyfer tai.
* Darparu ar gyfer oddeutu 8 safle mewnlenwi.
* Dangos mannau agored ddylid eu cadw.
* Dangos lleoliad yr hysbysfyrddau i ymwelwyr.

LLANRUG

* Dyrannu 4 acer o dir ar 4 safle ar gyfer tai.
* Darparu ar gyfer oddeutu 8 safle mewnlenwi.
* Dyrannu 1 acer o dir ar gyfer defnydd cymunedol/masnachol.
* Annog Awdurdod Dwr Cymru i wella'r gwaith trin carthffosiaeth.

PENISARWAUN / WAUN

* Darparu ar gyfer oddeutu 6 safle mewnlenwi.
* dangos safle ffafredig ar gyfer Ysgol Gynradd newydd.

WAUNFAWR

* Dyrannu 1 acer o dir ar 2 safle ar gyfer tai.
* Darparu ar gyfer oddeutu 7 safle mewnlenwi.

Y GLYN/GLYN RHONWY

* Dangos tir ddyranwyd ar gyfer datblygiad twristiaeth mawr arfaethedig.
* Dangos tir ddyranwyd ar gyfer safle ddiwydiannol.

Yn y pentrefi isod ni chaniateir datblygiad newydd fel arfer, er y gall cynigion am unedau unigol dderbyn ystyriaeth ffafriol os byddant yn cyd-synio ag amodau arbennig: Betws Garmon, Bryn'refail, Ceunant, Tan y Coed, Dinorwig, Fachwen, Gallt y Foel.

Nid yw Nant Peris o fewn dalgylch Arfon Wledig.

TACSIS
AMBERLINE
BETHEL
UNRHYW AMSER · UNRHYW BELLTER
Ffôn:(93)670555

CRIB COCH
Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched yn Festri Capel Croesywaun nos lau, Tachwedd 6. 'Roedd y Cadeirydd Sirol, Mrs Rhian Owen, Pwllheli a'i chynorthwywr, Mrs Megan Jones, yn bresennol, ac estynnwyd croeso iddynt gan Lywydd y Gangen, Mrs Pat Parry, a roddodd adroddiad llawn ar gyfarfod o Gyngor Hydref y Sefydliad a gynhaliwyd ym Methesda yn ddiweddar.

Darllenwyd y Llythyr Misol a chyfeiriwyd at y dosbarthiadau min nos i'w cynnal yn ystod y gaeaf. Mae'r aelodau eisoes yn paratoi at y cystadlaethau dartiau – mae 39 o dimau yn yr ornest. Mae rhai aelodau a diddordeb mewn cychwyn chwarae Bowlio.

Rhoddwyd adroddiadau blynyddol gan y Llywydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Etholwyd y canlynol yn swyddogion am 1987: Llywydd – Mrs Pat Parry; Ysgrifennydd – Mrs Katie Wynn Jones; Trysorydd – Mrs Catherine A Jones; Pwyllgor – Mrs Mary Davies, Mrs Beti Griffith, Mrs Pegi Jones, Mrs Missen a Mrs Buddug Rowlands.

Rhoddwyd gwobr y raffl gan Mrs Missen ac enillwyd ef gan Mrs Mary Davies.

Talwyd y diolchiadau gan Mrs Morfa Evans gan gyfeirio at Mrs Rhian Owen a Mrs Megan Jones, ac at y gwasanaeth gan aelodau trwy'r flwyddyn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos lau, Rhagfyr 4, gyda Mrs Rhiain Jones, o Gaernarfon yn rhoi arddangosiad o wneud melysion. Mae croeso i aelodau newydd.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref:
1. £40: Mr R E Evans, Cae Ffynnon; 2. £25: Mr Edgar Owen, Lloches; 3. £10: Mr Huw Griffith, Swyddfa'r Post.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd y Cyfarfod Misol yn y Ganolfan, nos lau, Hydref 30. Noson o baratoi ar gyfer y Nadolig, gyda Mrs Eluned Roberts yn addurno cacennau Nadolig, a Mrs Gill Brown yn gwneud gwahanol fathau o felysion, a'r aelodau yn eu profi. Diolchwyd i'r ddwy gan Mrs Irene Roberts. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Heulwen Huws, gan Mrs Annie Roberts. Y Llywydd, Mrs Glenys Williams a gynrychiolodd y gangen yn y Cyfarfod Blynyddol yn Aberystwyth. Bydd y bws yn gadael y Llythyrdy am 7 o'r gloch i'r cinio Nadolig, nos lau, Tachwedd 27. Pawb i dalu wythnos ymlaen llaw i'r Trysorydd neu aelod o'r pwyllgor os gwelwch yn dda.

DIOLCH: Dymuna Gwendoline, Dic a'r teulu, ddiolch i'r Prifathro, Mr Leslie Jones, Mrs Eurgain Eames, plant yr ysgol a staff y gegin am yr arian, anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd Gwendoline ar ei ymddeoliad fel gofalwraig yr ysgol. Hefyd perthnasau a ffrindiau. Diolch yn fawr iawn.

PLAID CYMRU: Cynhelir Ffair Nadolig Plaid Cymru ar nos Wener, Rhagfyr 5ed am 6.30 yr hwyr yn y Ganolfan.

DEWCH YN LLU

DIOLCH: Dymuna Celyth ac Eleri, 9 Stad Tŷ Hen, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bychan, Iwan.

RAS HWYAID (wedi ei drefnu gan bwyllgor y Clwb Chwaraeon): Er gwaetha'r tywydd garw ac ar ôl sawl ymdrech a strachu aeth yr hwyaid bach melyn i lawr yr afon gan orffen o dan Bont y Cyrnant (gyda dim diolch o gwbl i John Gwynedd) – dyma'r canlyniadau:
1. Rhif 19 – M V Parry, 8 Castle Ditch, Caernarfon, 2. Rhif 453 – Steven Flynn, White Garage, Waunfawr; 3. Rhif 427 – A G Williams, Hafle, Rhes Vaynol, Deiniolen.
Diolch am eich cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU: i Meira Turner, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Talwrn, Ynys Môn, pan enillodd y wobr gyntaf a phlac am y Brif Adroddiad. Hefyd Alun Williams a ddaeth yn gyntaf a chael plac am ganu Emyn.

Yn Eisteddfod Deiniolen ar Hydref 25 enillodd Meira y wobr gyntaf a medal am adrodd o'r Ysgrythyr a chafodd darian i'w chadw am flwyddyn. Daeth yn ail ar y Brif Adroddiad. Cipiodd Wmffra y drydedd wobr yn y gystadleuaeth Cân Werin a daeth yn ail hefo Alun am ganu deuawd.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Hydref: 1. Edgar Owen, Lloches; 2. T J Griffiths, Ty'n Ronnen; 3. Iolo Huws Roberts, Bodrida.

LLONGYFARCHIADAU: i Jeff Daniel, 8 Stad Tŷ Hen, ar ei ddyweddïad â Elisabeth Edwards.

YR URDD: Cafodd yr aelodau noson hynod o ddifyr yng nghwmni Mr Duncan Brown, Gwelfor, ar Dachwedd 12fed. Bu'n dangos sleidiau ac yn siarad am ystlumod wrth y plant.

Nos Fercher, Tachwedd 26, bydd Mrs Ann Humphreys, Llanrug, yn dod i'r Urdd i ddangos i'r plant sut i wneud addurniadau Nadolig.

Cynhelir y disgo blynyddol eleni ar nos Fercher, Rhagfyr 3ydd am 6.00 o'r gloch.

CROESO: Estynnir croeso i Mr a Mrs Hughes sydd wedi symud o Gaernarfon i gadw Siop y Sglodion yn y pentref. Eu bwriad yw agor y siop amser cinio ddydd Mercher, lau, Gwener a Sadwrn a gyda'r nos yr un dyddiau.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd noson "Paned a Stondinau" yn y Ganolfan ar Hydref 17ef. Enillwyd y rafflau gan Mrs Alice Johnston, Tŷ Gwyn a Mrs Williams, Nyrs. Dyfalwyd pwysau'r gacen yn gywir gan Mrs Jones, Eilian Terrace ac enw'r ddol gan Gwyneth Griffiths. Cipiwyd trysor Ynys y Trysor gan Gareth, Llwyn Afon. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd i gefnogi'r noson.

Cynhelir bore "Paned a mins peis" yn y Ganolfan ar fore lau, Rhagfyr 11eg am 10am. Croeso cynnes i bawb.

Bydd parti plant yr Ysgol Feithrin fore lau, Rhagfyr 18fed am 11am. Estynnir croeso cynnes i'r brodyr a'r chwiorydd bach i ymuno yn yr hwyl, a gobeithiwn yn fawr y bydd Sion Corn yn troi i mewn atom ni hefyd!

Bob Nadolig, ers blynyddoedd bellach, 'rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael cwmni Dafydd Iwan yn ein cyfarfod carolau, ac eleni eto, bydd Dafydd yn dathlu'r Nadolig gyda ni yn y Ganolfan ar nos Fercher, Rhagfyr 10fed am 6.30 o'r gloch. Bydd paned a mins pei i bawb a byddwn yn gwneud casgliad tuag at Gronfa Plant mewn Angen.

ER MWYN MALI: Mae'r Urdd wedi dechrau ymgyrch i gasglu hen bapurau newydd er mwyn codi arian i wella safonau byw un o'r gwledydd tlotaf yn y byd, sef Mali, ar gyfandir Affrica. Bydd y Ganolfan ar agor rhwng 10 ac 12 o'r gloch fore Sadwrn, Tachwedd 29ain i dderbyn y papurau ac i'w fwndelu. Os oes rhywun yn anabl i ddod a'r papurau i'r Ganolfan, ond yn awyddus i gyfrannu, gallant ffonio Mrs B Jones, Waunfawr 345.

CYDYMDEIMLWN:
Â theulu y diweddar Mrs Faulkener, Pen Clip.

EISTEDDFOD YR ARDAL

Cynhaliwyd Eisteddfod Ardal y Waunfawr ddydd Sadwrn, Tachwedd 8 yn y Ganolfan. Croesawyd y Parch Ifor Rowlands, Caernarfon a Mr Eilian Wyn Jones, Llundain, fel cadeiryddion. Mrs Carys Jones, Penisarwaun, oedd y beirniad cerdd a Mr Arwel Jones oedd yn beirniadu'r adrodd a'r llên, gyda Miss Anwen Thomas, Penygroes a Mr Islwyn Jones, Llanrug yn beirniadu'r gwaith llaw, coginio, arlunio a ffotograffiaeth. Mrs Ann Marston a Mr Brian Williams oedd yn cyfeilio. Arweinwyd y cyfarfodydd gan Mrs Irene Roberts, Mrs Gillian Wyn, Mr Leslie Jones a Mr Norman Williams, gyda Mrs Carys Jones a Mrs Bethan Williams yn cynorthwyo gyda'r plant bach.

Bu cystadlu brwd yn ystod y dydd a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd. Dyma'r canlyniadau.

Cyfarfod y Prynhawn
ADRODD
Dan 4 oed: 1. Sioned; 2. Mari; 3. Aled. **4-6 oed**: 1. Gareth; 2. Edryd; 3. Elin, Lowri a Rhian. **6-8 oed**: 1. Bethan; 2. Gerallt; 3. Kirsty. **8-10 oed**: 1. Huw; 2. Delyth; 3. Gavin a Ceirion. **10-12 oed**: 1. Elin; 2. Meilir. **Parti adrodd dan 12**: 1. Parti Alaw; 2. Parti Bryn Gwylan.
CANU
Dan 4 oed: 1. Sioned; 2. Mari ac Aled. **4-6 oed**: 1. Osian a Rhian; 2. Heledd; 3. Gareth. **6-8 oed**: 1. Bethan Cadwaladr; 2. Gerallt; 3. Kirsty. **8-10 oed**: 1. Delyth; 2. Kailey; 3. Anwen. **10-12 oed**: 1. Rhodri; 2. Manon ac Elin a Meilir. **Deuawd dan 12**: 1. Annwen a Kailey; 2. Rhodri a Geraint; 3. Elin a Delyth. **Parti canu dan 12**: 1. Parti Glyn Awel. **Cân Actol dan 8 oed**: 1. Sion Corn; 2. Yn y Dre. **Cân Actol 8-12 oed**: Bwyta'n iach. **Unawd piano dan 8 oed**: 1. Ffion; 2. Kirsty; 3. Llio. **8-10 oed**: 1. Geraint; 2. Elaine a Carolyn; 3. Heddus a Huw. **10-12 oed**: 1. Meilir; 2. Alaw; 3. Elin a Sara; 4. Eilir.
Unawd recordydd dan 12 oed: 1. Meilir a Heddus. **Unawd offeryn cerdd dan 12 oed**: 1. Meilir; 2. Alaw; 3. Thea a Luke. **Parti recorders dan 12 oed**: 1. Parti Kailey; 2. Parti Delyth; 3. Parti Heddus.
LLÊN
Safon I: 1. Huw Gwilym; 2. Llio; 3. Bethan a Ffion. **Safon II**: 1. Bethan; 2. Ceirion; 3. Ceirion. **Safon III**: 1. Geraint ac Anwen; 2. Kailey a Delyth. **Safon IV**: 1. Sara; 2. Elin; 3. Fflur.
ARLUNIO
Ysgol Feithrin: 1. Charlotte; 2. Llion; 3 Sioned. **Babanod 1**: 1. Lowri; 2. Rhian; 3 Hazel. **Babanod 2**: 1. Sioned; 2. Heledd; 3 Derfel. **Safon I**: 1. Huw; 2. Kirsty; 3. Ffion. **Safon II**: 1. Penny; 2. Tracy; 3. Sharon. **Safon III**: 1. Kailey; 2. Anwen; 3. Thea. **Safon IV**: 1. Rachel; 2. Jamie; 3. Manon.
GWAITH LLAW
Babanod 1: 1. Christine; 2. Caroline; 3. Helen. **Babanod 2**: 1. Rebecca; 2. Adam; 3. Derfel. **Safon I**: 1. Marc; 2. Ffion; 3. Gwyn. **Safon II**: 1. Tracy; 2. Penny; 3. Awena. **Safon III**: 1. Thea; 2. Kailey; 3. Anwen ac Iona. **Savon IV**: 1. Jaime; 2. Robert; 3. Rachel.

Cyfarfod yr hwyr
ADRODD
12-15 oed: 1. Rhys; 2. Bethan ac Ella. **15-18 oed**: 1. ac yn derbyn cwpan pwyllgor yr Eisteddfod: Nan Wyn; 2. Elliw Haf. **Dros 18 oed**: 1. Meira Turner; 2. Eurig Wyn. **Parti Adrodd dan 18 oed**: 1. Parti Nan; 2. Parti Gwenan. **Parti Adrodd dros 18 oed**: 1. Genod Ni; 2. Parti'r Wylan. **Darllen i'r dysgwyr di-brofiad**: 1. Joyce. **Darllen i'r dysgwyr profiadol**: 1. Jeanette ac Ann. **Darn heb ei atalnodi**: 1. Margaret; 2. Grace. **Adrodd o'r ysgrythyr dros 40 oed**: 1. Meira.
CANU
2-15 oed: 1. Ella; 2. Sian; 3. Gwennan. **15-18 oed**: 1. ac yn derbyn cwpan Mr H O Jones: Elliw Haf. **Cân Werin 12-18 oed**: 1. ac yn derbyn cwpan Mr Alun Williams: Rhys Sion; 2. Huw Ynyr. **Unawd Cerdd Dant dan 18 oed**: 1. Elliw Haf. **Unawd Gymraeg**: 1. Eurig; 2. Alun ac Wmffra. **Cân Werin Agored**: 1. Alun; 2. Eurig; 3. Wmffra. **Emyn dros 40 oed**: 1. Wmffra; 2. John ac Alun. **Deuawd 12-18 oed**: 1. Karen a Sian; 2. Elliw a Nan; 3. Gwenan ac Ella. **Deuawd Agored**: 1. Ann a Jeanette ac Wmffra ac Alun. **Parti Canu dan 18 oed**: 1. Parti Euros. **Grŵp Pop dan 18 oed**: 1. Rocers Bodhyfryd. **Cân Actol**: 1. Yr Heliwyr. **Côr**: 1. Côr Blaen y Nant. **Unawd piano 12-15 oed**: 1. Osian; 2. Dylan; 3. Gwennan. **Unawd piano 15-18 oed**: 1. Wayne Owen. **Gwobr Goffa Mrs Rear am y cystadleuydd mwyaf addawol dan 18 oed**: Osian Gwynedd. **Unawd offeryn cerdd 12-15 oed**: 1. Kevin; 2. Telor; 3. Euros. **15-18 oed**: 1. Gwyn; 2. Joanna. **Gwobr Mr Leslie Jones am yr offerynwr mwyaf addawol dan 18 oed**: Kevin Tame.
LLÊN
11-15 oed: 1. Euros; 2. Rhys; 3. Sian. **15-18 oed**: 1. Huw Ynyr. **Stori Fer**: 1. Rhian Ellis. **Parodi**: 1. Glenys Jones; 2. Phyllis Jones. **Dyddiadur wythnos**: 1. Margaret Owen; 2. Glenys Williams a Huw Ynyr. **Englyn**: Mrs Gweneirys Jones. **Ysgrif i'r dysgwyr**: 1 Gill Brown; 2. Margaret Eaglestone. **Llinell Goll**: 1 Robat Williams; 2. Norman Williams; 3. Rhian Ellis.
ARLUNIO
11-15 oed: 1. Joanne Tame; 2. Rhodri Sion; 3. Luke Skidmore. **15-18 oed**: 1. Wayne Owen.
FFOTOGRAFFIAETH
1. Bob Eaglestone; 2. Irene Roberts; 3. John Roberts. **Sleid**: 1. Duncan Brown.
GWAITH LLAW
Addurn Bwrdd: Mrs K W Jones. **Top heb lewys**: 1 a 2. Llinos Cadwaladr; 3. Lena Jones a K W Jones. **Siaced Aran**: 1. Lena Jones; 2. Llinos Cadwaladr; 3. K W Jones. **Gwnio dilledyn**: 1. Mrs Gweneirys Jones; 2. Sian Llwyd; 3. Llinos Cadwaladr.
COGINIO
12-15 oed: 1. Nia; 2. Sian; 3. Ella. **15-18 oed**: 1. Sandra. **Lemon Meringue**: 1. Beryl Jones; 2. Irene Roberts. **Profiteroles**: 1. Llinos Cadwaladr; 2. Glenys Williams; 3. Irene Roberts. **Rum Truffles**: 1. Jill Brown; 2. Irene Roberts; 3. Beryl Jones. **Shortbread**: 1. Glenys Williams; 2. Beryl Jones. **Jeli Mwyar Duon**: 1. Glenys Williams; 2. Margaret Eaglestone; 3. Llinos Cadwaladr.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

A Robin Walker a'r teulu yn Seland Newydd ar golli ei fam, sef Mrs Walker, Bryn Golau.
Ac â Mr T A Thomas, Gilfach, ar golli chwaer yn yr Amwythig.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mr R Jones, Cartrefle, Stad Tŷ Hen, sydd yn Ysbyty Gwynedd wedi derbyn triniaeth law feddygol. Dymunwn adferiad buan iawn iddo.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbyty i Dewi Owen, Lloches, Mrs Gwen Jones, Bod Arthur, Mrs Phyllis Jones, Rhoslan, Mrs Alison Williams, Gwylfa, Mrs M Griffiths, Tref Eilian a Mr John Cotton, Grug y Mynydd, gan obeithio eu bod yn parhau i wella.

DIOLCH: Dymuna Mr John Cotton, Grug y Mynydd, ddiolch i'w gymdogion caredig a ffrindiau am y cardiau a'r negeseuon a dderbyniwyd. Diolch hefyd i'r meddygon teulu a staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal arbennig.

CAPEL CROESYWAUN: Ar Ragfyr 12, 1886, agorwyd Capel Croesywaun (M.C.) ac i ddathlu canmlwyddiant y Capel fe gynhelir nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnos yn dechrau Rhagfyr 8.

Nos Fawrth, Rhagfyr 9, gwahoddir aelodau yr Eglwys ynghyd â nifer o wahoddedigion i swper yn y Festri. Noson gartrefol fydd hon er mwyn rhoi cyfle i hen gyfeillion i rannu atgofion.

Trefnir te i blant yr Ysgol Sul ar brynhawn yn ystod yr wythnos.

Nos Iau, Rhagfyr 11 am 7.30 o'r gloch, cynhelir Cyngerdd yn y Capel pryd y gwasanaethir gan "Hogia'r Ddwylan". Arweinydd y côr yw Mrs Menai Williams, sydd â chysylltiad agos a Chapel Croesywaun, oherwydd bu ei thad yn weinidog ar yr Eglwys. Llywydd y noson fydd Dr Emyr Wyn Jones, Llansannan, un arall o blant yr Eglwys. Mae "Hogia'r Ddwylan" yn adnabyddus drwy Gymru, a disgwylir gwledd ganddynt. Ni chodir tâl mynediad i'r Cyngerdd, ond gwneir casgliad.

Enillwyr yn yr Eisteddfod.

Nos Sul, Rhagfyr 14 am 7.30 o'r gloch, cynhelir Cymanfa Ganu yn y Capel o dan arweiniad Mr R D Roberts, Groeslon. Bu Mr Roberts yn arweinydd y gân ac organydd yn y Capel am flynyddoedd. Cyflwynir yr emynau gan Mr Aled Roberts, y Felinheli. Llywydd y cyfarfod fydd Dr Tom Ellis, Aberdesach, Llywydd Henaduriaeth Arfon, un a fagwyd yn y Waunfawr. Trefnwyd i recordio y Gymanfa gan y BBC a disgwylir darlledu'r gwasanaeth yn fuan yn y flwyddyn newydd. Cenir emynau allan o Lyfr y Methodistiaid Calfinaidd a'r Atodiad newydd.

Cydsyniodd Mr Iolo Huws Roberts i ysgrifennu ychydig o hanes yr Eglwys, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld ffrwyth ei ymchwil.

Mae rhai o chwiorydd sydd dros eu 80ain, yn teimlo brathiad y tywydd afiach, ac ymysg y rhain fe geir Mrs Mary Ellen Jones, Tŷ'n Fawnog y gofelir amdani'n dyner iawn gan ei merch. Fe hyderwn yn fawr iawn y caiff pob un lwyr adferiad iechyd er eu cyfyngu i'w cornelau, a phrin bod y tywydd yn rhoi ysbrydoliaeth i rai llawer iawn ieuengach o ran dyddiau.

PEN-BLWYDD A DYWEDDIO: Dymunir yn dda i Marina Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar 12 Tachwedd. Ar yr un diwrnod, dyweddïodd â John Eifion Jones, Hendre Cennin, Garndolbenmaen. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Dymuna Marina ac Eifion ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da.

LLONGYFARCHIADAU i Morris a Nancy Thomas, Tan y Foel ar ddathlu priodas aur yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Nos Lun, Tachwedd 17 cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan pan y cafwyd sgwrs ar "Hanes dyddiau cynnar Cwmni Lein yr Wyddfa", gan Rol Williams. Llywydd y noson oedd Mr R Ap Wyn Williams, Tegannedd, a thalwyd y diolchiadau gan Miss Ifanwy Rhisiart. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Rhagfyr 15 pan y ceir sgwrs gan Mr John O Huws gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu. Mae'n galonogol iawn gweld y neuadd fach yn llawn ymhob cyfarfod, ac amryw o'r newydd wedi ymuno eto y tymor hwn. Croeso i ragor ymuno ond rhaid gwneud hynny yn y cyfarfod nesaf.

APÊL Y SGANNYDD: Cynhelir "Ocsiwn Tŷ", nos Wener, 30ain Ionawr, 1987 yn y Ganolfan, i ddechrau am 6.30 o'r gloch. Os oes rhywun yn dymuno cyfrannu tuag at y noson hon derbynnir rhoddion gan aelodau'r pwyllgor neu cysyllter â'r ysgrifennydd, Mrs Iris Owen (Ffôn: Waunfawr 691). Gydag eitemau drutach na'i gilydd gellir ystyried rhoi canran o'r elw yn ôl i'r rhoddwr, os dymunir.

Bydd yr elw o'r noson yn mynd tuag at ein Apêl a mawr obeithir y bydd cefnogaeth dda i'r noson hon.

Y GANOLFAN: Dyddiadau i'w cadw mewn cof yn ystod mis Rhagfyr:
5:– Ffair Nadolig y Blaid am 6.30 o'r gloch.
10:– Noson o ganu Carolau gyda phlant yr Urdd a Dafydd Iwan am 6.30 o'r gloch.
16:– Gyrfa Chwist yr Aelwyd am 7.30 o'r gloch.
17:– Gwasanaeth Nadolig gan oll o blant yr Ysgol am 7.00 o'r gloch.
18: – Gyrfa Chwist y Clwb Chwaraeon am 7.30 o'r gloch.
19:– Noson o ganu Carolau o gwmpas y pentref mewn bws wedi ei drefnu gan bwyllgor y Ganolfan. Byddwn yn gorffen ym Mryn Eirian i ganu carolau yng nghwmni Dafydd Iwan. Dewch yn llu.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Ar Hydref 30ain, fe gafwyd y noson agoriadol, pan gafwyd sgwrs gan Mr Rol Willia,s, y Waunfawr ar "Lloffion o hanes yr ardaloedd hyn", a'r ffeithiau wedi eu casglu o Archifdy'r Cyngor Sir, ac fe gafwyd pwyntiau diddorol iawn am gymeriadau a digwyddiadau'r gorffennol yng Ngwaun Gynfi, Llanberis, Cwm y glo, Brynrefail a Phenisarwaun. Wedyn ar nos Iau, Tachwedd 13eg, "Troi'r Dail" oedd testun sgwrs y Parch H Walter Jones, Bangor, ac fe roddwyd lle amlwg iawn i Bwllheli yn y sylwadau hyn gan mai yn y cylch hwnnw y treuliodd Mr Jones ran helaeth o'i blentyndod, a lle tyfodd i fyny yn casglu gwybodaeth a dod i adnabod nifer o gymeriadau diddorol a rhyw odrwydd yn perthyn iddynt. Dyma'r cymeriadau, serch hynny, sy'n rhoi lliw ar droeon bywyd.

Fe fu cyfnod o fewn cof y rhai hynaf yn ein plith pan oedd ardal Dinorwig yn medru cynnal eisteddfod lewyrchus iawn. Digwyddai yr adeg honno bod beirdd, llenorion a cherddorion disglair o fewn cylch yr ardal. Yn anffodus fe aeth y cyfnod hwn heibio, oherwydd y rheidrwydd i rai – y rhai ieuengaf bid sicr – ymadael â'r ardal i chwilio am waith mewn lleoedd eraill. O ganlyniad i hyn fe geir rhai cystadleuwyr yn cefnogi eisteddfod a gynhelir yn flynyddol bellach yn ardal gyfagos Deiniolen. Fe fu rhai'n llwyddiannus i gipio'r prif wobrwyon yn fan honno. Er enghraifft, fe geir enwau Mr Ifan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol yn ennill ar ddeuawd gyda chyfaill o Bontnewydd; Miss Ellen Wyn Jones, Tŷ'n Fawnog yn ennill ar draethawd, a Mrs Alice Myfanwy Griffith, Tan Bwlch yn cyrraedd y brig ar y llinell goll. Mae hefyd rhai plant â chysylltiad â'r ardal yn perthyn i bartion llwyddiannus. Rhaid llongyfarch yn galonog iawn yr ymgeiswyr llwyddiannus hyn am gadw enw da'r ardal yn y byd cystadleuol. Nid ydyw'n anghof gennym mai Mrs Annette Bryn Parri – eto o deulu athrylithgar Tŷ'r Ysgol oedd yn un o gyfeillydion swyddogol yr Eisteddfod.

CEUNANT

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Evan Davies, Tan-y-Graig ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganed mab, Iwan i'w merch Eleri, brawd bach i Ffion.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yng Nghapel Ceunant, bnawn Sul, Tachwedd 2il dan ofal y Gweinidog, y Parch John Morris. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Tony Storey, Dylan Thomas a Gwenno Parry.

am
Nenfydau Artex
cysylltwch ag
A. LEWIS
12 Lôn y Bryn,
Porthaethwy 712598

ISAAC HUGHES
FFOTOGRAFFYDD
Thomas St, Llanberis
1874-1911(?)

Os oes unrhyw un a gwybodaeth am yr uchod, a fyddech cystal â chysylltu â'r Golygydd neu â Mike Kerr, (Ffôn: Llanberis 870502).

CYFARCHION DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chiw oll oddi wrth

JAVED a SHAHEEN HAQ

SWYDDFA'R POST CLWT-Y-BONT

Ffôn: 870325

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf

DYMUNA CLARICE, DELYTH, JOHN a STAFF

Y TARW BULL INN DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i gwsmeriaid a chyfeillion oll

Cofiwch am ein NOSON GWISG FFANSI ar noson ola'r flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

Tafarn Datws Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048



THOMAS & JONES Gwydrwyr

YR HEN SINEMA STRYD FAWR DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870680 neu 870486

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr. Gwydro Dwbl, Drysau Patio a Ffenestri Aliwminiwm a P.V.C.

Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYMER, HILDA, NICOLA A LYNDSEY PARRY

SIOP CIGYDD BRISTOL HOUSE DEINIOLEN

Llanberis 870297

Cywiriad i'r hysbyseb a ymddangosodd yn rhifyn diwethaf Eco'r Wyddfa

BWS 93 DINORWIG – CAERNARFON

LLUN-SADWRN DIM AR WYLIAU CYHOEDDUS

	YSG	SG							YSG	SG			
DINORWIG	8.10	8.18		10.20	11.20		1.20	2.20			4.00		6.20
Deiniolen Rhydfadog	8.20	8.28	9.30	10.30	11.30	12.30	1.30	2.30	3.14	3.15	4.05	4.30	6.30
Penisarwaun	8.26	8.34	9.36	10.36	11.36	12.36	1.36	2.36	3.20	3.21	4.11	4.36	6.36
Llanrug	8.43	8.43	9.45	10.45	11.45	12.45	1.45	2.45	3.38	3.30	4.20	4.45	6.45
Maes Barcer Lon Eilian	8.53	8.53	9.55	10.55	11.55	12.55	1.55	2.55		3.40	4.30	4.55	6.55
CAERNARFON	8.58	8.58	10.00	11.00	12.00	1.00	2.00	3.00	3.50	3.45	4.35	5.00	7.00

							YSG					
CAERNARFON	9.40	10.40	11.40	12.40	1.40	2.40	3.05	3.50		4.40	5.40	7.00
Maes Barcer Lon Eilian	9.45	10.45	11.45	12.45	1.45	2.45	3.10	3.55		4.45	5.45	7.05
Llanrug	9.55	10.55	11.55	12.55	1.55	2.55	3.25	4.05		4.55	5.55	7.15
Penisarwaun	10.00	11.00	12.00	1.00	2.00	3.00	3.30	4.10		5.00	6.00	7.20
Deiniolen Rhydfadog	10.10	11.10	12.10	1.10	2.10	3.10	3.40	4.20		5.05	6.10	7.25
DINORWIG	10.20	11.20		1.20	2.20		3.50			5.15	6.20	

YSG – Dyddiau Ysgol SG – Sadwrn a Gwyliau Ysgol

CEFNOGWCH EICH BWS BRO . . .

IEUAN WILLIAMS GLANFFRWD, DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870484

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BERYL AC OWIE HUGHES

Regent House
DEINIOLEN
Ffôn 870461

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB oddi wrth CLIFFORD, DIANA, NIA RHIANNON AC EIRA

Swyddfa'r Post
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 870283

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth holl staff

D & A SUPERMARKET

STRYD NEWYDD
DEINIOLEN
Ffôn 870171

Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

JONES + JONES

FRON DEG
CLWT-Y-BONT
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 870856

ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

DAVID, CAROL A'R STAFF

WELLINGTON INN

Deiniolen
Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus — chwerw ar ei orau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid a chyfeillion oddi wrth bawb yn

SIOP EDNA

Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 872511

CLOG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth bawb yn

CLOGWYN CLIMBING

DEINIOLEN Ffôn: 870551

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SLING

Golygfeydd i Deledu a Ffilm

Tabernacl
Ffordd Deiniol
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 872044

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Arwel a Jean Roberts

CABS DEINIOLEN

4 FFORDD DEINIOL
DEINIOLEN
871591

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CYFARCHION NADOLIG ODDI WRTH HYSBYSEBWYR

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau

CREFFT·ELIDIR

SIOP AMAN Stryd Fawr
DEINIOLEN *Ffôn: Llanberis 871210*

Hefyd dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS? YDI HI'N SAFF I SIÔN CORN DDOD LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!
Cysylltwch â Dave Wood
'INSULAFLUE'
Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
J.M. JONES a'i FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLEN
(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)
Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael
Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CYNGOR EGLWYSI: Ers blynyddoedd bellach mae'r Cyngor wedi bod yn trefnu cynnal Gwasanaeth o Fawl ym mis Tachwedd. Yn Festri Cefnywaun y cynhaliwyd y Gwasanaeth eleni, gyda'r Parchg. Erfyl Blainey yn llywyddu. Cymerwyd rhan yn ôl yr arfer gan unigolion a phartïon gwahanol Eglwysi'r Cyngor a chafwyd bendith a blas ar y moliannu, a braf iawn oedd cael cwmni nifer o ieuenctid y pentref yn y cyfarfod.

Yng nghapel Ebenezer am 5.30pm, nos Sul, 21 Rhagfyr y cynhelir ein Gwasanaeth Nadolig eleni. Yn arferol cyfrennir i'r Gwasanaeth gan wahanol fudiadau'r pentref, ond eleni, trwy gydweithrediad parod Mr W J Eames y Prifathro, plant Ysgol Gwaun Gynfi fydd yn gyfrifol am y Gwasanaeth. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r Gwasanaeth, ac hyderwn y bydd capel Ebenezer dan ei sang i'r oedfa.

Ar derfyn y Gwasanaeth o Fawl a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd, enwebwyd y brawd John B Jones (Ebenezer), i'w ethol i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan, mewn Cyfarfod Cyhoeddus sydd i'w gynnal ar 10 Rhagfyr.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nancy Rowlands a Lena, 12 Pentre Helen, Deiniolen ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'r oll o'u teulu a'u ffrindiau, gan na fyddant yn anfon cardiau eleni.

DIOLCH:
Dymuna Lona ac Euryn ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau,y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar yr achlysur.

DIOLCH: Dymuna Delyth Fôn Williams, 12 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei dyweddiad â Steven Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Clarice a Delyth, Bull Inn, ddiolch o galon am y gefnogaeth a gafwyd Noson Galan Gaeaf. Bydd yr elw o £130.00 yn mynd at y Sganiwr.

APÊL Y SGANIWR, YSBYTY GWYNEDD:
CYLCH DEINIOLEN: Dymuna'r pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar iawn bob cyfraniad a gweithgaredd hyd yma er sicrhau y swm penodol. Gallwn eich hysbysu ein bod hanner y ffordd, a deisyfwn eich cefnogaeth caredig eto ymlaen i'r ail filltir.
Yn ddiolchgar a chywir ar ran y pwyllgor, Clarice Roberts, Ysgrifennydd a Hugh Jones, Trysorydd.

PRIODAS: Yng nghapel Glanrhyd, Llanwnda, dydd Sadwrn, Hydref 18, priodwyd Lona, merch Mr a Mrs Gwilym Jones, Tegfan Llandwrog â Euryn, mab Mr a Mrs Frank Owen, Vyrnwy House, Deiniolen.

ADRAN SANT IOAN

ADRAN SANT IOAN: Nos lau, 30ain o Hydref yn Eglwys S. Padarn, Llanberis, cofrestrwyd y cad-lanciau isod gan yr Hon. Mrs W Legge Bourke, Alun Griffith, Iolo Griffith, Arwel Hughes, David Nigel Lambert, Dyfed Price.
Derbyniwyd tystysgrifau yn y pynciau isod:
Cymorth Cyntaf: Alun Griffith, Iolo Griffith, Arwel Hughes, David Nigel Lambert, Dyfed Price, Peter Michael Jones, Sharon Ann Jones, Yvonne Denise Jones, Nia Glyn Davies.
Nyrsio Cartref: Iolo Griffith, Arwel Hughes, Nia Glyn Davies, Sharon Ann Jones, Yvonne Denise Jones.
Ymladd Tân: Alun Griffith, Iolo Griffith, Arwel Hughes, David Nigel Lambert, Dyfed Price, Nia Glyn Davies, Peter Michael Jones, Sharon Ann Jones, Yvonne Denise Jones, Sian Griffith, Dylan Hughes, David Owen Jones.
Darllen Map: Iolo Griffith, David Nigel Lambert, Peter Michael Jones, Sharon Ann Jones, Nia Glyn Davies.
Darllen Map – Hŷn: Yvonne Denise Jones.
Penodiad:
Llywydd – Mr Griffith Thomas Jones.
Is-lywydd – Mrs Ann Jane Owen.

Cynhelir dosbarthiadau Sant Ioan bob nos Fawrth yn Ysgol Gwaun Gynfi i blant 8 oed i 16 oed, ac oedolion o 16 mlwydd oed i fyny.

Croeso i rai newydd ymuno â ni.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI
(DEINIOLEN A'R CYLCH)
Hydref 24 - 25, 1986
Mynd o nerth i nerth y mae Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi. Wedi dechreuad petrus bedair blynedd yn ôl tyfodd i fod yn eisteddfod sydd bellach yn ymestyn

dros ddau ddiwrnod. Gwahoddwyd beirniaid Adrodd a Llên a Cherdd yr eisteddfod gyntaf, sef Mri Selwyn Griffith, Penisarwaun a T J Williams, Llanrwst yn ôl eto eleni, a mynegwyd boddhad mawr gan y ddau yn safon uchel y cystadlu. Erys beirniaid y gweithgareddau eraill, sef Mrs Arfona Davies, Eirlys Hughes, Janice Land a'r Mri Kevin Jones a Gwilym Williams, wrth y gwaith ers yr eisteddfod gyntaf.

Llywyddion yr Eisteddfod oedd Miss Mari Larsen, Mri Morris Williams a W Pierce Rowlands, i gyd o Gaernarfon, ond wedi dal cysylltiadau agos â Deiniolen.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Annette Bryn Parri ac Einir Wyn Williams, a'r arweinyddion oedd Miss Jean Parc Jones, Mrs Nancy E Jones, Mri Gwyn Parri, Ifor Glyn Ifans a'r Parch Trefor Lewis.

Enillwyd cadair yr Eisteddfod, a oedd yn rhodd Cwmni Sling, Deiniolen gan Mrs Megan Lloyd Ellis, ar gerdd i "Diwydiant". Cipiodd Mrs Ellis ddeuddeg cadair cyn hyn, a daeth yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pontsteffan. Arferai fyw ym Mhwllheli hyd at flwyddyn yn ôl, pryd yr ymddeolodd, ac ymgartrefu yn Abergwaun.

Dylan Wyn Williams a lywiodd Seremoni'r Cadeirio yn fedrus, ac yn cael ei gynorthwyo gan ddisgyblion eraill o Ysgol Uwchradd Brynrefail, sef Sharon, Jenny a Mari Wyn Williams a Jennifer E Jones, Iwan Williams a ganai'r Corn Gwlad, a chanwyd Cân y Cadeirio gan Robert Wyn, Bontnewydd, enillydd y Prif Unawd. Yr oedd y Seremoni, a gyflwynwyd gydag urddas, yng ngofal Hefin G Jones.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI (DEINIOLEN A'R CYLCH)

ADRODD

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1. Gethin; 2. Lynne; 3. Jenny ac Alaw. **Dsobarthiadau 2 a 3:** 1. Bethan Williams; 2. Sian Evans; 3.Richard Wyn a Sion Thomas. **Safonau 1 a 2:** 1. Lindsey Vaughan; 2. Louise; 3. Elaine. **Safonau 3 a 4:** 1. Dyfan Sion; 2. Delyth Price; 3. Sion Wyn Hughes. **Parti Cyd-adrodd dan 12:** neb yn cystadlu. **Dan 15:** 1. Beryl Ellis Jones, Y Ffôr; 2. Sion Wyn Hughes, Deiniolen; 3. Lona Thomas, Tremadog. **Araith dan 19:** 1. Raymond Williams, Talysarn. **Dan 19:** 1. Rhian Medi Roberts, Llanfairpwll; 2. Carys E Jones, Y Ffôr. **Sgets:** 1. Parti "Tynnu llun"; 2. Parti "Canolfan waith". **Dan 25:** 1. Eleri Lewis Jones, Llansadwrn; 2. Carys E Jones, Y Ffôr. **Adrodd o'r Ysgrythur:** 1. Myra Turner, Waunfawr; 2. Rhian Medi Roberts, Llanfairpwll; 3. Carys E Jones, Y Ffôr. **Adrodd Digri:** 1. Gwynfor Baum, Y Ffôr. **Parti Cyd-adrodd:** neb yn cystadlu. **Prif Adroddiad:** 1. Meiriona Williams Eglwysbach; 2. Meira Turner, Waunfawr; 3. Myfanwy Wyn Roberts, Llangefni.

CANU

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1. Alaw; 2. Shaun a Jenny; 3. Steffan. **Dosbarthiadau 2 a 3:** 1. Darren Munro; 2. Carolyn; 3. Richard Wyn ac Eiriona. **Safonau 1 a 2:** 1. Lindsey Vaughan; 2. Aaron Jones; 3. Sian Edwards. **Safonau 3 a 4:** 1. Delyth Price; 2. Catrin Keeler; 3. Hayley Williams. **Unawd Cerdd Dant dan 12:** 1. Nia Land; 2. Lindsey Vaughan; 3. Delyth Price. **Cân Werin dan 12:** 1. Lindsey Vaughan; 2. Delyth Price; 3. Nia Land. **Unawd Paino dan 12:** 1. Dyfan Sion; 2. Gwawr P Williams; 3. Catrin Keeler. **Parti Canu dan 12:** 1. Parti Bechgyn Gwaun Gynfi; 2. Parti Genethod Gwaun Gynfi. **Unawd dan 15:** 1. Magwen Griffiths, Tregarth; 2. Glenys Hughes Llanddoged a Beryl Jones, y Ffôr; 3. Lona Thomas, Tremadog. **Cân Werin dan 19:** 1. Bethan Haf, Garndolbenmaen; 2. Magwen Griffiths, Tregarth; 3. Glenys Hughes Llanddoged a Raymond Williams, Talysarn. **Unawd Cerdd Dant dan 19:** 1. Bethan Haf, Garndolbenmaen; 2. Lona Thomas, Tremadog; 3. Beryl Jones, Y Ffôr. **Dychanu Cân Bop:** neb yn cystadlu. **Unawd dan 19:** 1. Gwyn Hughes Jones, Llanbedr Goch; 2. Bethan Haf, Garndolbenmaen; 3. Raymond Williams, Talysarn. **Unawd Piano dan 19:** Robin Huw Jones, Llanbedr Goch; 2. Rhian Medi, Llanfairpwll; 3. Raymond Williams, Talysarn. **Deuawd dan 19:** Bethan Haf a Llinos, Garndolbenmaen; 2. Gwawr a Nia, Deiniolen; 3. Ceri a Lindsey, Deiniolen. **Parti Canu dan 19:** neb yn cystadlu. **Unawd Cerdd Dant Agored:** 1. John Eifion, Garndolbenmaen; 2. Beryl Ellis Jones, Y Ffôr. **Unawd Offerynnol dan 12:** 1. Euros Williams; 2. Martin Williams; 3. Dyfan Sion. **Unawd dan 25:** Gwyn Jones, Llanbedr Goch; 2. John Eifion, Garndolbenmaen; 3. Trefor Williams, Bodffordd. **Deuawd dros 19:** 1. Ifan Bryn, Dinorwig a Robert Wyn, Bontnewydd; 2. Alun Williams, Waunfawr ac Wmffra Jones, Betws Garmon. **Unawd Offerynnol Agored:** 1. Dylan Wyn Williams; 2. Iwan Williams; 3. Dylan Cole. **Cân Werin:** 1. Iona Stephen Williams, Bodwrog; 2. Sian Bowen, Bethesda; 3. Wmffrey Jones, Betws Garmon. **Emyn dros 50:** 1. Gwen Owen, Pencaenewydd; 2. Ifan Bryn Roberts, Dinorwig; 3. William Steven, Bodwrog. **Unawd Gymraeg:** 1. Trefor Wyn Jones, Llangefni; 2. John Eifion, Garndolbenmaen; 3. Iona Stephen Williams, Bodwrog. **Pedwarawd neu wythawd:** Pedwarawd Iola. **Her Unawd:** Robert Wyn, Bontnewydd; 2. Trefor Wyn Jones, Llangefni, 3. Iona Stephen Williams a Clarence Jones, Llanddaniel. **Côr neu Barti:** neb yn cystadlu.

ADRAN LENYDDOL

Creu brawddeg: Margaret Griffith, Deiniolen. **Llunio Croesair:** Alice Griffith, Dinorwig. **Stori Fer:** Eurig Wyn, Groeslon. **Traethawd:** Ellen Wyn Jones, Dinorwig. **Asio Emyn:** Mrs M G Williams, Bethel a Dilys Hughes, Deiniolen. **Llythyr Caru:** "Tywysog". **Parodi:** Eurig Wyn, Groeslon. **Telyneg:** Mary Wyn Jones, Deiniolen. **Englyn:** Atal y wobr. **Limrig:** Eurig Wyn, Groeslon. **Llinell Goll:** Alice Griffith, Dinorwig. **Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 o linellau ar y testun "Diwydiant":** Mrs Megan Lloyd Ellis, Abergwaun.

Enillwyd cwpannau arbennig gan y canlynol am yr ymgais orau yn eu gwahanol adrannau:

Adran Adrodd dan 12 oed: Dyfan Sion. **Adran Cerdd dan 12 oed:** Lindsey Vaughan Parry. **Adran Lenyddol:** Dyfan Sion. **Adran Celf a Chrefft o 12 i 19:** wedi ei dal yn ôl. **Gwau a Gwnio:** Sian Griffiths. **Gwaith Coed, Metel neu Lechen:** Glyn Jones. **Adran Lenyddol dan 19:** Iolo Griffith.

ADRAN LENYDDOL

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1. Heather; Å. Alaw; 3. Helen a Steven. **Dosbarth 2 a 3:** 1. Karen Jones; 2. Sam Lea; 3. Bethan a Hannah. **Safon 1:** 1. Sian Elen Thomas; 2. Michael Thomas; 3. Lindsey Parry. **Safonau 2 a 3:** 1. Ceris; 2. Hayley; 3. "Sali Mali". **Safonau 3 a 4:** 1.Dyfan Sion; 2. Sion Wyn Hughes; 3. Barry John Thomas.

BARDDONIAETH

Dan 12: 1. Sion Wyn Hughes; 2 a 3. Dyfan Sion. **Dan 15:** 1. Iolo Griffith; **Mared Sutherland. Dan 19;** "Alltud"

RHYDDIAITH

Dan 15: 1. Iolo Griffith; 2. Mared Sutherland. **Dan 19:** 1. Nia Davies.

ARLUNIO

Ysgol Feithrin: 1. Ceri; 2. Bethan; 3. Sara. **Dosbarth Meithrin ac 1:** 1. Heather; 2. Debbie; 3. Peter a Gethin. **Dosbarth 2 a 3:** 1. Rebecca Sutton; 2. Maria Spaini; 3. Rhiannon Longley. **Safon 1 a 2:** 1. Bethan Griffiths; 2. Lindsey Jones; 3. David Thomas a Nicola Taylor. **Safon 3 a 4:** 1. Barry John Thomas; 2.Sara Ann Wood; 3. Matthew Hughes a Bronwen Jones. **Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Uwchradd:** 1. Gethin Williams; 2. Gwynant Maxwell; 3. Darryl Williams. **Blwyddyn 3 a 4:** 1. Iolo Griffith; 2. Iolo Wyn Griffith; 3. Dylan Williams ac Iwan Williams.

GWAITH LLAW

Ysgol Feithrin: 1. Kellie; 2. Sioned; 3. Ceri. **Dosbarth Meithrin ac 1:** 1. Alaw a Gethin. **Dosbarth 2 a 3:** 1. Shaun Charles Thomas; 2. Richard W Williams. **Safon 1 a 2:** 1. Sian Elen Thomas; 2. Tanya Marie Thomas; 3. Lindsey Parry ac Elaine Williams. **Safon 3 a 4:** 1. Eilir Williams; 2. Sian Griffiths; 3. Barry John Thomas a Simon Franks. **Blwyddyn 1 a 2:** 1. Linda Wyn Jones; 2. Gwawr P Williams; 3. Alun Griffiths. **Blwyddyn 3 a 4:** 1. Dylan Williams; 2. Iolo Griffiths.

COGINIO

Dan 8 oed: 1. Lindsey Parry ac Elaine Williams. **Dan 12:** 1. Derwyn Jones; 2. Hugh Thomas; 3. Catrin Keeler. **Dan 15:** 1. Mared Sutherland a Jennifer Elen Jones. **Dan 19:** 1. Nia Davies a Nicola Parry. **Dros 19 – Taffi:** 1. Mrs M C Jones; 2. Mair Rees Jones a Gwen Griffiths. **Bara Brith:** 1.Elan Williams; 2. Margaret Jones; 3. Betty Hughes. **Eclair:** 1. Elan Williams; 2. Valmai Williams; 3. Dilys Hughes a Gwen Griffiths. **Cystadleuaeth i ddynion yn unig:** 1. John B Jones; 2. Ernest Jones; 3. Len Jones a Brymer Parry.

GWAITH COED:

Dan 15: 1. Paul Hughes; 2. Dylan Cole; 3. Ieuan Griffiths. **Dros 15:** 1. Glyn Jones; 2. Meurig Jones; 3. Paul Anthony Jones.

GWAITH METEL

Dan 15: 1. Jonathan Jones; 2. Dylan Williams; 3. Iolo Griffiths.

AR WERTH: Beic siopa "Fold Away" – £20. Mewn cyflwr ardderchog. Ffôn: Llanberis 870 267.

FFOTOGRAFFIAETH

Dan 19: 1. Jennifer Elen Jones; 2. Nicola Vaughan Parry; 3. Nia Davies. **Dros 19:** 1. Eifion Hughes; 2. John B Jones; 3. Gwen Griffiths.

TREFNIANT BLODAU

Dan 15: 1. Gwawr P Williams; 2. Sian Griffiths. **Dros 15:** 1. Jean Moeller; 2. Gwen Rowlands; 3. Dilys Hughes.

RECORD NEWYDD GENOD TY'R YSGOL

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, cyfeiriwyd at record newydd Annette, Olwen a Marina, sef Genod Ty'r Ysgol, Dinorwig. Ar un ochr i'r record, bydd y tair chwaer yn canu pump o ganeuon gwreiddiol o'r eiddo Gwyn ac Annette Bryn Parri. Ar yr ochr arall, clywir Annette yn chwarae darnau piano.

Bydd recordiau a chasetiau ar werth mewn siopau led-led Cymru. Yn lleol byddant ar werth, cyn y Nadolig, yn Swyddfa'r Post a Siop Edna, Deiniolen.

TAITH NODDEDIG YR YSGOL FEITHRIN

YSGOL FEITHRIN: Trefnwyd Taith Gerdded Noddedig gan rai o'r mamau a'u ffrindiau ar fore Sadwrn, 1af o Dachwedd. Er y tywydd garw, cychwynnodd y cerddwyr am hanner awr wedi naw o'r Ysgol Feithrin i Ddinorwig, Llanberis, Brynrefail ac yn ôl i'r Ysgol Feithrin yn llawn haeddu'r baned te oedd yn eu disgwyl. 'Roedd y fenter yn llwyddiant mawr a chyda'r arian a gasglwyd ar y ffordd a'r arian a noddwyd ymlaen llaw gwnaed elw o £150.00 tuag at gronfa'r Ysgol. Yr ydym yn ddyledus i'r cerddwyr ac yn arbennig iawn i'r noddwyr a thrigolion Deiniolen, Llanberis a'r cylch am eu haelioni, a hefyd y mamau oedd yn gwarchod y plant yn yr Ysgol Feithrin. Y cerddwyr oedd Alwena, Bernadette, Hilary, Glenda, Rhona, Iola a Carolyn.

Trefnwyd raffl gan Carolyn hefyd, ac 'rydym yn ddiolchgar iawn iddi hi ac yn arbennig iawn i Mrs Carol Hughes, y "Wellington" a hefyd Mr Brymer Parry, Porth Gogledd am roddi'r gwobrau. Yr enillwyr oedd 1. John Parry; 2. Noel Williams; 3. Linda Jones.

Mae'r plant yn brysur yn ymarfer ar gyfer y ddrama Nadolig (a'r mamau'n brysur yn gwnïo!) Dowch i gefnogi'r Ysgol Feithrin a'r Band Ieuenctid ar nos Fercher, 10fed o Ragfyr yn Festri Capel Ebenezer. Gobeithir ybydd yr Ysgolion Sul a'r Brownies hefyd yn cymryd rhan.

Parhad ar dudalen 26

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

CYFARCHION NADOLIG O GWM-Y-GLO

Mae JOAN a CHARLES WARE

SWYDDFA'R POST a Stordy Cwm-y-glo

Ffôn: 870242

yn dymuno'n dda i chwi oll dros y Nadolig hwn – ac yn diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands "Glanrafon" (872275)

CLWB POBOL Y CWM: Dydd Iau, Hydref 15 cyflwynodd y Llywydd, Mr Llew Hughes, ein gŵr gwadd sef Mr Idwal Edwards, MBE, Bontnewydd, cyn-swyddog Undeb Trafnidiaeth Gogledd Cymru. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar hen fwynfeydd y cylch yn neilltuol mwynfeydd copor Llanberis, Drws y Coed a Mynydd Parys ym Môn. Roedd ei sgwrs am fwynfa copor Llanberis yn arbennig o ddiddorol i aelodau y Clwb oherwydd cysylltiad ardal Cwm y glo a chludo'r copor i borthladd Caernarfon. Cludid y copor gan gychod y wraig nodedig Marged Uch Ifan oedd yn byw ym Mhenllyn i lanfa yn y Cwm, ac yna gyda cherbydau i Gaernarfon i'w allforio. Bu sôn am y "Copper Ladies" o Mynydd Parys yn dod i Gwm y glo i lanhau y copor cyn ei gludo ymlaen. Mae yn amlwg fod y mwynfeydd wedi bod yn gynhaliaeth i deuluoedd y cylch, ac yn denu mewnfudiad o estroniaid sydd a'u henwau yn aros gyda rhai o deuluoedd yr ardaloedd. Diolchwyd iddo gan Mr R H Parry. Rhoddwyd y te gan Mr a Mrs R H Parry a'r raffl gan Mrs E Williams, Pantafon.

Diddorol oedd gwrando ar is-gapten Brown o Uned Efengylaidd Gogledd Cymru, Byddin yr Iachawdwriaeth yn egluro ei ddyletswyddau yn y Fyddin dydd Iau, Hydref 29. Mae yn amlwg fod eu llafur a'u hymroddiad tros anffodusion a'r anghenus yn ein cymdeithas yn ennyn gwerthfawrogiad llwyr. Rhoddwyd y

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430
HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
MODURDY
London Garage
CWM-Y-GLO
Ffôn Llanberis 870234
Arbenigwyr mewn tiwnio moduron
A.A. M.O.T.

Dymuna Maldwyn a Margaret
Gwesty'r Fricsan
(Snowdon Hotel)
CWM-Y-GLO
Llanberis 870289
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

TANRALLT, CWM-Y-GLO,
Ffôn: Llanberis 870793
Hefyd yn
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG Ffôn: 77482
Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau
Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara

Burmah AM BETROL, DIESEL, OLEW AC AMRYFAL ANGHENION MODURO Burmah
GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 872046
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth John Steele a phawb yn
GORS BACH PANEL BEATING SERVICE
Cwm-y-glo

Ffôn Llanberis 870814
AM BOB GWAITH MECANYDDOL A THRIN CYRFF
GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR

te gan Miss M Davies a Mrs R Parry, a'r raffl gan Mrs H M Roberts.

FFAIR Y CYNHAEAF: Nos Fawrth, Hydref 21, cynhaliwyd 'Ffair y Cynhaeaf' yn yr Ysgol Gymuned, yr elw at Eglwys Sant Gabriel. Dymuna y Rheithor, y Parch Aled Jones Williams, ddiolch yn fawr iawn i bawb am noson mor llwyddiannus. Enillwyr y raffl fawr oedd: 1. Bocs Nwyddau: Carys Ann Jones, Glan y Don; 2. Bocs Nwyddau: Miss Ceridwen Hughes, 70 Maes Padarn, Llanberis; 3. Bag o lo: Mrs V Jones, Meillionen, Cwm y Glo; 4. Toweli: Mr Robert Jones, Conservative Club; 5. Embroidery Set: Mr Ted Morris, Band, Llanberis. 6. Bocs Siocled: Mr Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi; 7. Gwydrau: Mr Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi.

Raffl ar wahan o bob stondin:1. Gateaux: Mrs Jones, Seiont House; 2. Basged o ffrwythau: Mr Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi; 3. Basged o ffrwythau: Mr Tom Owen, 3 Maes Gerddi; 4. Bocs Nwyddau: Mrs Julie Rowlands, Bethesda; 5. Basged o ffrwythau: Mrs Christine Jones, Dyffryn; 6. Tedi Bêr: Catherine Williams, 34 Bro Rhyddallt, Llanrug; 7. Potel o chwisgi: Mr Tom Owen, 3 Maes Gerddi. Pŷs mewn potel: Mrs Joan Ware, Llythyrdy.

APÊL SGANNYDD YSBYTY GWYNEDD: Galwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan i sefydlu Apêl Sgannydd Ysbyty Gwynedd yng Nghwm-y-Glo. Yn bresennol 'roedd Dr J A Davies, Cadeirydd yr Apêl, a chawsom rai awgrymiadau ar wahanol ffyrdd i godi'r arian, a gwelsom ffilm o'r Sgannydd yn gweithio. Gwyddom fod targed wedi ei roi ar gyfer pob pentref yng Ngwynedd, yn ôl y boblogaeth, a'n cyfran ni yma yw £945, ond gan fod Merched y Wawr, Clwb y Graig, a'r Clwb leuenctid eisoes wedi cyfrannu £175, saif y swm i'w gasglu eto yn £770.

Bwriedir cynnal un gweithgaredd cyn y Nadolig, sef "Cylch Arian" dan ofal Mrs Vera Price, ceir mwy o wybodaeth am hyn yn y dyfodol agos. Sefydlwyd pwyllgor ac etholwyd y Swyddogion canlynol:- Cadeirydd: Gwyn Hefin Jones; Is-Gadeirydd: Llewelyn Hughes; Trysorydd: Dafydd Idriswyn Roberts; Ysgrifennydd: Gwyneth Chick.

YR URDD: Diwedd mis Hydref, mwynhaodd aelodau'r Urdd noson ddiddorol iawn yn dathlu Calan Gaeaf. Cawsant gemau, Twc o afalau a chystadleuaeth i wneud mwgwd allan o 'bwmpen'. Ddechrau Tachwedd aeth yr aelodau i gyd i'r Pwll Nofio yng Nghaernarfon ac roeddynt i gyd wedi mwynhau eu hunain.

DYWEDDÏAD: Llongyfarchiadau i Allan, mab Mr a Mrs H G Jones, Bod Elan, ar ei ddyweddïad gyda Marie, merch Mr a Mrs C Reyers, Warrington.

PÊL-DROED: Enillodd Cwm yn erbyn Llanrug o ddwy gôl i ddim, Andrew Roberts a Mark Porter yn sgorio, ond colli wnaethant o 6 gôl i 1 yn erbyn Bontnewydd, gyda Andrew Roberts yn sgorio eto.

PWYLLGOR CARNIFAL 1986: Nos Lun, Tachwedd 17 cyfarfu'r pwyllgor yn y Ganolfan Gymdeithasol a chafwyd adroddiad o'r fantolen gan y Trysorydd, Mrs Avril Jones. Trosglwyddwyd siec o £807.09 i Mr Llew Hughes, Trysorydd y Ganolfan Gymdeithasol. Diolchodd Mr Hughes i swyddogion y carnifal ac eilwyd gan Mrs Gwyneth Chick. Diolchodd Mr Lloyd Owen, Cadeirydd y pwyllgor i Mrs Avril Jones, Mrs Marjorie Roberts, Mrs Iris Rowlands,yr ysgrifenyddion ac i'r pwyllgor am eu cyd-weithrediad, hefyd i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i lwyddiant y carnifal.

CYDYMDEIMLAD: Trist oedd clywed am farwolaeth Robert Henry, mab Mr a Mrs Stewart Jones, Cricieth. 'Roedd Robert yn ŵyr i'r diweddar Mr a Mrs E Roberts, Bod Gwilym. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

"BYD A BETWS" CÔR MEIBION CAERNARFON RECORD NEWYDD SBON ERBYN Y 'DOLIG

Record amrywiol ei harddull yw'r cyfoeth lliwgar a glywir ar "Y Byd a'r Betws", record newydd Côr Caernarfon. Ceir amrywiaeth hyfryd o offerynnau yn gyfeiliant i un ochr o ganeuon crefyddol, a'r ochr arall yn ganeuon seciwlar. Clywir organ urddasol un o eglwysi cadeiriol hynaf Prydain (Bangor) a cheinder y piano Steinway a saif yn neuadd Powys, Coleg y Brifysgol, Bangor – ill dau yn effeithiol dros ben. Ceir offerynnau eraill na chysylltir mohonynt fel arfer â Chorau Meibion – y delyn (yn gyfeiliant i ganeuon gwerin Cymraeg); utgorn a drymiau (gyda'r "Battle Hymn" a "Nidaros") a syntheseinydd, gitar a drymiau efo miwsig poblogaidd "canol y ffordd".

Mae lleisiau'r Côr Meibion hefyd yn gyfoeth o liwiau cerddorol. Clywir siant fynachaidd, oesol ei naws, mewn gosodiad newydd cyffrous chwe llais o Salm 150 gan Dilys Elwyn Edwards. Ceir unawdwyr (a hyd yn oed bedwarawd) yn canu mewn gwrthgyferbyniad â'r côr llawn, ac yng nghanol y dynion wele burdeb lleisiol y llanc ifanc 13 mlwydd oed, Huw Edward Jones, mewn trefniant newydd o gân boblogaidd Cesar Francj – "Panis Angelicus", (neu "Bara Anglylion Duw")

Caneuon gwerin, caneuon pop, caneuon rygbi (Sosban Fach), caneuon crefyddol – a mwy. Os credwch fod corau meibion oll yn rhygnu mewn hen rigol gerddorol, gobeithio y bydd i'r record "wahanol" hon eich gorfodi i newid eich barn.

Bydd y côr yn canu'r holl ganeuon oddi ar y record mewn cyngerdd arbennig yn y Majestic, Caernarfon, ar nos Sul, Rhagfyr 21ain am 8 pm.

CÔR MEIBION CAERNARFON
"Y BYD A'R BETWS"
Rhif y Record: SAIN 1379D
Rhif y Casets: SAIN C979
I gysylltu â'r côr:
John Hywel (Cyfarwyddwr Cerdd)
(0248) 712445
Idwal Davies (Swyddog Cyhoeddusrwydd):
(0286) 4701

MEYSYDD PARCIO 'STEDDFOD BRO MADOG

Gwahoddir mudiadau a chymdeithasau lleol sydd â diddordeb mewn codi arian trwy redeg Meysydd Parcio Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Madog i gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod.

Eglurodd aelod o staff yr Eisteddfod mai'r bwriad yw talu canran o'r arian a dderbynnir am barcio i'r cyrff fydd yn ymgymeryd â'r gwaith.

"Rydym yn teimlo fod hwn yn gyfle i'r Eisteddfod roi arian yn ôl i gymdeithasau lleol", meddai.

Ychwanegodd fod y gwaith am yr wythnos (Awst 1-8, 1987) yn galed a bod angen nifer dda o ddwylo i'w wneud yn drwyadl.

"Mae'n bosibl felly i ddau gorff ymuno gyda'i gilydd i wneud y cais am y gwaith", meddai.

Dylai'r ceisiadau gyrraedd y Swyddfa yn 7 Bank Place, Porthmadog cyn y dydd olaf o Ionawr fan bellaf.

RALA RWDINS YN Y CWM

Plant ysgol Cwm-y-Glo gyda'r awdures Angharad Tomos

Wythnos Llyfrau Plant 1986

Bu'r awdures Angharad Tomos yn ymweld â dwy ysgol yn nalgylch yr "Eco" yn ystod yr wythnos uchod ym mis Hydref. Ymwelodd ag ysgolion Dolbadarn a Chwm-y-Glo i siarad am, ac adrodd ei straeon i'r plant ieuengaf. Angharad enillodd wobr Tir Na Nog eleni am y llyfr gorau i blant yn y Gymraeg.

Trefnwyd yr ymweliadau gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd gyda nawdd o Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

MERCHED Y WAWR RHANBARTH ARFON

Yn Ysbyty Gwynedd ar bnawn braf Hydref 2il, cynhaliwyd seremoni liwgar a diddorol.

Ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen, fe gynlluniwyd Murlun o gymeriadau Llyfr Mawr y Plant gan Gwen Pritchard Jones, Penygroes a Gill Brown, Waunfawr, a gweithwyd arno gan amryw o'r aelodau. Ar ran Merched y Wawr, cyflwynwyd y Murlum yma gan Eluned Bebb Jones i Adran Plant yr Ysbyty ac fe'i derbyniwyd gan David Murphy – Swyddog Gweinyddol – gyda diolch. A ninnau wedyn yn ddiolchgar am y croeso a'r baned a gawsom.

Manteiswyd ar y cyfle i sgwrsio a threfnu sioe – Sioe i ddangos dillad cwmni Laura Ashley. Fe'i cynhelir ar Ragfyr 3ydd yn Neuadd John Phillips. Gan fod Merched y Wawr yn gyson ymwybodol o ddilladau ffasiynol, gobeithiwn eu gweld yn tyrru yn lluoedd tua'r fan.

Cynhelir Ffug Eisteddfod Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Nos Wener, Mawrth 6ed, 1987.

CYSTADLEUAETH LENYDDOL MERCHED Y WAWR

ELENI ETO DYMA OSOD CYSTADLAETHAU AR EICH CYFER I'CH DIDDORI DROS FISOEDD OER Y GAEAF. GOBEITHIO Y BYDD YR YMATEB YN UN TEILWNG.

1. **YSGRIFENNU DRAMA** un Act i Ferched (cystadleuaeth wedi ei hail-osod)
Beirniad: **Nan Lewis.**

2. **Ysgrifennu CYFRES O CHWE DEIALOG I DDYSGWYR** – addas i'w defnyddio mewn dosbarth neu grŵp. Rhaid iddynt awgrymu testynau a sefyllfaoedd newydd neu gyfoes.
Beirniad: **Marged Jones.**

3. **DARLUNIO STORI FEITHRIN.** Yn dilyn ein cystadleuaeth y llynedd i lunio cyfres o chwe stori feithrin rydym yn chwilio am berson i ddarlunio'r storiau.
Dewisir UN stori a gofynnir i'r ymgeiswyr ddarlunio 6 llun gorffenedig ar gyfer y stori honno ynghyd â chynllun bras ar gyfer gweddill y stori. Er mwyn argraffu byddai'n fanteisiol derbyn y lluniau mewn gwaith pen ac inc du. (Gellir cael copi o'r stori oddi wrth y Trefnydd Cenedlaethol.)
Beirniad: **Catrin Stevens**
Ymgynghorydd: **Angharad Tomos**

4. **TELYNEG** ar y testun EGIN.
Beirniad: **Gerallt Lloyd Owen.**

Cyfansoddiadau i'r Trefnydd Cenedlaethol erbyn 1 Mawrth, 1987. Ffugenw ar yr ymgais, ac amlen yn cynnwys enw a chyfeiriad yr ymgeisydd i Swyddfa Merched y Wawr, Penlan Merwyn, Aberporth, Aberteifi, Dyfed, SA43 2DT. (Ffôn: 0239 810999

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

DEINIOLEN (parhad)

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor yn y Caban, Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Medi'r 15fed, dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Croesawyd aelodau Merched y Wawr Bethel, a'r wraig wadd oedd Jane Edwards, y nofelydd. Soniodd Mrs Edwards am y modd yr oedd yn mynd ati i ysgrifennu. Weithiau, cymerai wythnosau iddi lunio stori neu ysgrif. Darllenodd rannau o'i hysgrifau a'i storiau a mwynhawyd y noson yn fawr. Diolchodd y llywydd a Mrs Margaret C Griffith iddi a chafwyd gair o werthfawrogiad gan chwiorydd Bethel. Yn ystod y cyfarfod anrhegwyd Mrs Marian Wyn Williams, fel gwerthfawrogiad o'i gwaith fel Trysorydd ers deng mlynedd, pan ddechreuodd y gangen. Cyflwynodd Jane Edwards gloc hardd iddi. Roedd yr aelodau i gyd yn gyfrifol am y te. Cafwyd noson ddifyr iawn.

Nos Fawrth, Hydref 21, daeth nifer dda ynghyd i'r Caban er gwaethaf y tywydd. Llywyddwyd gan Mrs Eirlys Williams. Y wraig wadd oedd Mrs Angharad Huws o Fethesda. Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs Mair Roberts, ysgrifennydd Pwyllgor Anabl, yn gofyn i'r gangen gysylltu â thrigolion "Cartref Frondeg", Caernarfon i geisio rhoi ychydig o bleser i'r plant rheini na fyddai'n derbyn cerdyn pen-blwydd na cherdyn Nadolig. Pasiwyd i gydweld â'r cais, yna gwahoddwyd Mrs A Huws i sôn am fwyta yn iachus. Cafwyd sgwrs ffraeth a buddiol ynghyd ag arddangosiad o wahanol Saladau a'r modd i'w gwneud yn flasus ac atyniadol. Diolchwyd yn gynnes i Mrs Huws gan Miss Kathleen Jones a'r Llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Catherine Hughes a Mrs Betty Wyn Davies.

CYMDEITHAS UNDEBOL CHWIORYDD YR OFALAETH: Ar nos lau y 6ed o Dachwedd, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Undebol Chwiorydd yr Ofalaeth yn Festri Disgwylfa am 7 o'r gloch.

Cymerwyd y rhan arweiniol gan y Llywydd Mrs Miriam Lewis. Croesawodd Mrs Lewis yr oll o'r chwiorydd cyn mynd ymlaen gyda gweithgareddau'r cyfarfod.

Ail-etholwyd y swyddogion presennol i wasanaethu am flwyddyn arall, sef Mrs Miriam Lewis (Llywydd), Mrs Beti Wyn Davies (Trysorydd) a Mrs Helen W Jones (Ysgrifennydd) a diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth.

Fel Chwiorydd yr Ofalaeth anfonwn ein cofion cynnes at bawb sydd yn wael eu hiechyd mewn ysbytai a chartrefi, a dymunwn adferiad iechyd buan a bendith Duw arnynt.

Yn rhestr y marwolaethau yn rhifyn y mis diwethaf, fe adawyd allan enw Mr Robert Rowlands, 12 Pentre Helen yn hollol ddiarwybod. Yr ydym yn ymddiheuro am hyn, ac yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Nansi Rowlands a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod a thad hoffus.

Cynhaliwyd "Gwasanaeth o Fawl" ar nos Lun, Tachwedd 10fed yn Festri Cefnywaun, o dan Gyngor Eglwysi Deiniolen.

Anfonwn ddymuniadau gorau i Mr a Mrs Neville Thorman Jones, Tai Caradog, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Yn yr ail ran o'r cyfarfod cafwyd darlleniadau o'r Ysgrythur, yna cafwyd anerchiad ddifyr gan y Llywydd Mrs Miriam Lewis at y testun "Y Ffordd'. Diolchwyd i Mrs Jane Thorman Jones am roi y te am y mis hwn. Yn y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 4ydd, fe gynhelir "Gwasanaeth Nadolig", yna fe geir sêl "Moes a Phryn" ac i ddiweddu'r noson fe fydd yna luniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb o'r chwiorydd i ymuno â ni.

DIOLCH: Dymuna Mr Richie Jones, 24 Bro Rhiwen, Rhiwlas a'r teulu ddiolch o galon i bawb a gyfranodd at Apêl Sganiwr Ysbyty Gwynedd er cof am ei briod Morfydd Jones. Casglwyd £335. Diolch hefyd i Mr William Iolen Hughes, Ty'r Ysgol, Rhiwlas am gymryd gofal o'r Apêl.

Y GANOLFAN: Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn Neuadd y Ganolfan nos Fercher, 10 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch.

A wnaiff y rhai a enwebwyd gan wahanol gymdeithasau, yn arbennig, gofio am y cyfarfod os gwelant yn dda.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Neuadd yr ysgol ar Dachwedd 3ydd, dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y Llywydd. Darlenodd Mrs Jones y llythyr misol.

Cafwyd noson ddiddorol iawn gan y Llywydd yn sôn am *Beauty from the Kitchen*. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs J Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Einion Jones. Cawsom ganu dipyn o garolau hefyd o dan arweiniad Miss Beti Williams. Diolchwyd i Miss Williams gan Mrs Rita Parry Jones. Dymunodd y Llywydd wellhad buan i Miss Delyth Williams, merch Mrs Marian Williams, yr ysgrifennydd sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Bydd y cyfarfod nesaf sef y Cyfarfod Blynyddol ar Ragfyr 1af gyda Mrs Maud Williams, Caernarfon yn V.S.O. Taer erfynir am eich presenoldeb.

Y mae aelodau o'r Sefydliad yn edrych ymlaen am y Cinio Nadolig ar Ragfyr 12fed.

MARW: Yn ddisymwth iawn ddechrau Hydref yn ei chartref yn Carneddi, Bethesda, bu farw Mrs Pollie Jones, a fu'n byw am flynyddoedd lawer yn Cartrefle, Rhes Gweledfa. Wedi marwolaeth ei phriod, Mr William Ellis Jones, 15 mlynedd yn ôl, dychwelodd Mrs Jones i'w bro enedigol. Anfonwn ein cydymdeimlad at y mab – Hughie Arthur Jones, Aberdeen a'r chwaer – Mrs Hilda Williams ym Methesda.

PENSIYNWYR DEINIOLEN

Dyma lun o Bensiynwyr Deiniolen wedi ei dynnu o flaen festri Capel Ebenezer. A oes rhwyun yn gwybod rhywbeth o hanes y llun. Pa flwyddyn oedd hi a beth yw'r achlysur. Cafwyd y llun drwy garedigrwydd Mr Alun Wyn Evans, 55 Pentre Helen.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

RHODIO YMHLITH Y BEDDAU

Nid fi yw'r unig un o Fro Eryri fydd yn cael gwynfyd wrth gerdded trwy fynwentydd i ddarllen yr englynion a'r adnodau. Mi fydda i yn credu fod hyfrydwch hyn yn oed mewn prudd-der. A chredaf na chanodd Telyn Dafydd erioed yn well na phan ganai Dafydd Salmau Angladdol prudd seintiau yr Hen Destament.

Y mae gennyf reswm arall hefyd pam y rhoddais yr englynion canlynol heddiw. Dyma fo. Bydd rhywun yn gofyn imi weithiau roi awgrym i gofio rhywun fydd wedi mynd "at ei wobr" – wel dyma ddigon o amrywiaeth i chwi ddewis ohonynt.

Bedd Mam Dewi Havesp yn Llanrwst

Ni welais erioed anwylach – llanerch:
Hawlia'r lle hwn, mwyach,
Lonydd gan bob rhyw linach, –
Yma mae bedd fy mam bach.

Dewi Havesp

Ar fedd geneth un ar ddeg oed yn Nolgellau

Trallodau, beiau bywyd, – ni welais,
Na wylwch ô'm plegid:
Wyf iach o bob afiechyd,
Ac yn fy medd, gwyn fy myd.

Dafydd Ionawr

Yn Llanddeiniolen, ar fedd Jane Jones, Hafod Rhisgo, Beddgelert

Blinder i'm hamser o hyd, – a gofid,
A gefais o'm mebyd;
Nychais yn wan o iechyd,
Nes gorffen o bwys y byd.

Dafydd Ddu Eryri

Ym mynwent Pentir, ar fedd bydwraig

Derbyniais, rhifais dan rhod – naw ugain
O egwan fabanod;
'Rwy'n gorwedd, yn niwedd nod,
Mewn daear a mân dywod.

Dafydd Ddu Eryri

Beddargraff priod Granvillefab, Llanrug

Islaw hon, noswyl o hedd – fo dy ran0
Dof fi drwy fy chwerwedd,
Ar enyd, yma'r unwedd –
Gariad f'oes, i gwr dy fedd!

Granvillefab

Pur ydoedd cyn priodi – pur o hyd
Yn parhau i loewi:
Parchus oedd, parch sy' iddi –
Ellen hoff, y galwn hi.

Alafon

Ar fedd Miss Hughes, Gellidara, Lleyn

Er cof! ond pwy all gofio – y fath un
Fyth, heb dori i wylo?
Ah! nid bedd yw'r bedd tra byddo
Gem Iesu Grist ynghymysg a'i ro!

Dewi Arfon

Ar fedd Jane Griffith

Jane Griffith, ryw ddydd a ddaw, – ddiosga
Ddu wisg y bedd distaw:
Dring fry, drwy angau a'i fraw,
Ar wedd haul, i'r Ddeheulaw.

Eben Fardd

Ar briod Hwfa Môn

Y Fair hon fu a'i rhinwedd – yn dra hardd
Drwy ei hoes i'w diwedd:
Haerwn na ro'ed i orwedd
Un fwynach, burach mewn bedd.

Hiraethog

Ar fedd gwraig o Lanberis yn Llanrug

Sarah Williams, o'i hir waeledd – is hon
Yma sydd yn gorwedd:
Yn fwyn i'w Duw wrth fynd i hedd,
Hon greai fawl mewn gorfoledd.

G Tecwyn Parry

Ar fedd Mrs Ellen Owen, Cilgwthiwch, Mynwent Llanrug

Am Elen ni ddylem wylo – er ing
Er i angau'i gwysio:
A thynged ddwyn maith angho'
Gwyliau gras, ei gwely gro.

Pwy?

Y Pryf Sidan

O'i wiw wy i weu e' a, – a'i weuau
O'i wyau a weua;
E weua ei we aia:
A'i weuau yw ieuau ia.

A wyddoch chi pwy yw'r awdur?

Bugeilgerdd Dewi a Hywel

Dewi
A welaist, a 'dwaenaist ti, Doli,
Sy' a'i defaid ar ochr Eryri?
Ei llygad byw lon
Wnaeth friw ar fy mron,
Melusach na'r diliau yw Doli.

Hywel
O, do, mi adwaenwn i Doli,
Mae'i bwthyn wrth droed yr Eryri:
'Does tafod na dawn
All adrodd yn iawn
Mor hawddgar a dengar yw Doli.

Un dyner, un dawel yw Doli, –
Mae'n harddach – mae'n lanach na'r lili:
'Does enw is nen
A swnia'n ddisen
Mor ber gyda'r delyn a Doli.

Dewi
Ow! Ow! nid yw'n dyner wrth Dewi,
'Does Meinir yn delio fel Doli:
Er ymbil a hi
A'm llygaid yn lli,
Parhau yn gildynus mae Doli.

Ymdrechais wneud popeth i'w boddio,
Mi gesglais ei geifr idd' ei godro,
Dan obaith yn llwyr
Y cawn yn yr hwyr
Gusanu yn dalu gan Doli.

Mae'i mhynwes mor wyned â'r eira,
Mae'i chalon mor oered, mi wira':
A f'elor, ar fyr,
Fy nghariad a 'ngyr –
O oered a deled yw Doli!

Tri pheth, a dim mwy, wy'n ddymuno, –
Pob bendith i Doli lle delo, –
Cael gweled ei gwedd
Nes myned i 'medd,
A marw yn nwylo fy Noli.

Alun

Ein llongyfarchion i Mary Lloyd Williams ar ddathlu ei phen-blwydd y bedwar ugain a phedair mlynedd oed yn ddiweddar. Bydded iddi barhau mewn iechyd fel y gall gyfrannu llawer erthygl arall i'r 'Eco.'

Tybiwn mai Ceiriog yw awdur yr englyn i'r Pryf Sidan – math o orchest cynganeddol. Yr un modd ysgrifennodd yr englyn canlynol i'r afr.

"Ar grugrgroen yr hagr grogrgraig – a llamsach
Hyd hell lemserth lethrgraig,
Ochrau neu grib uchran y graig,
Grothawg-grib ar greithiog-graig."

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .
I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

SJAN

MAIRANNEDD
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5366

SIBRYDION O'R YSGOLION

Adroddiad gan y Prifathro – Mr Elfyn Thomas

Gwobrwyon

Eleni cafwyd y canlyniadau Safon A sydd gyda'r gorau a gafwyd ers blynyddoedd. Allan o 22 ymgeisydd yr oedd 16 yn deilwng o gael gwobr gan y Llywodraethwyr. Eisteddwyd 57 arholiad Safon A a phasiwyd 48 – dim ond 9 arholiad a fethwyd. Yr hyn oedd fwyaf nodedig efallai oedd cyfartaledd yr ymgeiswyr a enillodd radd A neu B, graddau sydd yn arbennig o anodd eu cael. Yr oedd 6 o ymgeiswyr wedi ennill un neu ddwy radd A, a 6 ychwanegol wedi ennill un neu ddwy radd B, felly yr oedd 12 allan o 22, h.y. dros 50 y cant o'r ymgeiswyr wedi ennill y graddau uchaf.

Y tri ymgeisydd sydd yn sefyll allan yw **Bethan Wyn Jones**, Llanberis, A mewn Cymraeg ac Ysgrythur a C mewn Hanes; **Dewi Wyn Lewis**, Deiniolen, A mewn Mathemateg, B mewn Cemeg a Ffiseg – gyda chlôd ym Mhapur Arbennig Cemeg; a **Neil Mark Wannop**, Bethel, A mewn Mathemateg a Ffiseg, B mewn Cemeg – gyda chlôd ym Mhapur Arbennig Ffiseg.

Hefyd, **Rhian Davies**, Bethel, A mewn Daearyddiaeth, B mewn Saesneg; **Richard Flint**, Cwm y glo, A mewn Daearyddaieth; a **Richard Andrew Williams**, Caernarfon, A mewn Hanes a B mewn Cymraeg.

Safon O a'r Maes Llafur Cyffredin

Yr oedd canlyniadau Safon O yn llawer gwell na'r disgwyliad.

Rhoddwyd gwobr i 15 a oedd wedi ennill un neu fwy gradd A, a dau arall a oedd wedi ennill 4 neu fwy gradd B. Felly yr oedd 17 o ddisgyblion, tua 15 y cant o'r flwyddyn, yn deilwng o wobr. Ond pe edrychid ar nifer yr holl ddisgyblion a enillodd un neu fwy gradd B (cofier mai gradd C sydd yn angenrheidiol gogyfer â phasio), y mae'r cyfanswm yn 38, h.y. y mae dros 30 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 5, 1986-87 wedi ennill o leiaf un radd B – canlyniad canmoladwy iawn.

Y mae canlyniadau Safon A yn haws eu dehongli gan fod llai o ymgeiswyr a nifer y graddau A, B, C, D, E yn fwy, ac y mae'n hawdd gweld felly fod canlyniadau Safon A eleni yn eithriadol. Y mae dehongli canlyniadau Safon O, TAU a'r Maes Llafur Cyffredin yn anos ond rhaid pwysleisio fod canlyniadau yr Ysgol hon wedi cymharu'n ffafriol, ac weithiau yn ffafriol iawn, ac Ysgolion Uwchradd eraill Gwynedd ar hyd y blynyddoedd. Hyd yn oed mewn blwyddyn lle na ddisgwylid canlyniadau arbennig y maent yn anrhydeddus ac yn foddhaol iawn. Y mae lle felly i ymfalchio yn record academaidd yr Ysgol. Yn yr arholiad Safon O, mae'r ymgeiswyr canlynol yn sefyll allan:

Manon Llwyd Evans, Llanrug: 5A a 4B; **Alison Mary Jones**, Cwm y glo: 4A a 2B; **Gwenllian Glyn Parry**, Penisarwaun: 4A a 4B; **Dafydd Meredydd Jones**, Penisarwaun: 4A a 4B; **Carl Anson**, Ceunant: 4A a 4B.

Y mae canlyniadau fel hyn yn adlewyrchiad o ymroddiad ar ran disgyblion ac athrawon.

CYMORTH I'R DEILLION: Casglodd dosbarth 2A Clegir ugain punt er mwyn cael pecyn "Braille" i un o blant y Trydydd Byd yn Kenya. Nawr, gall un o'r plant gael cyfle i ddarllen ac ysgrifennu, rhywbeth na ellid ei wneud o'r blaen. Diolch felly i'r disgyblion fu'n barod i gyfrannu ychydig o geiniogau bob dydd yn ystod eu cyfnod cofrestru tuag at un plentyn llai ffodus na hwy eu hunain. Derbyniodd y disgyblion lythyr gan Gymdeithas Cymanwlad Frenhinol y Deillion yn datgan eu diolch am eu cyfraniad hael.

PARTI NADOLIG PENDALAR: Trwy ddawnsio noddedig y mis diwethaf, casglodd y chweched dosbarth dros dri chant o bunnoedd tuag at gael parti Nadolig i Ysgol Pendalar, Caernarfon. Mae'r paratoadau bellach yn prysur fynd yn eu blaen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

O LAW I LAW: Bore lau, Tachwedd 6ed aeth dau fws o'r ysgol i Theatr Gwynedd i weld addasiad John Ogwen o 'O Law i Law'. Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau eu huanin yn fawr iawn.

'YR AMGUEDDFA DDU': Nos lau, Tachwedd 25ain, aeth cangen Urdd yr Ysgol i weld perfformiad Cwmni Bara Caws o 'Yr Amgueddfa Ddu' yn Neuadd JP, Y Coleg Normal

CWIS YR URDD: Nos Fawrth, Tachwedd 11 cafwyd cyfarfod o'r Urdd, pan gynhaliwyd cwis o dan ofal Mr Meirion Jones. Y buddugwyr oedd blynyddoedd 3 a 4 yr ysgol.

CAPTEINIAID: Capteiniaid yr ysgol eleni yw Vaughan Hughes ac Enid Price, a'r is-gapteiniaid yw Rheon Larsen a Rhian Powell.

PÊL DROED YSGOL BRYNREFAIL:

Canlyniadau'r mis:

Dyffryn Nantlle (gartref)
Blwyddyn 1 – ennill 4-1
Blwyddyn 3 – ennill 4-2
Bechgyn hŷn – colli 4-2
Caergybi (oddi cartref)
Dan 16 – colli 7-1 (Cwpan Bryn Davies)
Dan 13 – colli 2-0
Coleg Technegol Bangor
Bechgyn hŷn – colli 5-1 (Cwpan Ivor Tuck)

Roedd Dafydd Llywelyn Jones o Fethel yn aelod o dîm Arfon a enillodd yn erbyn Ysgolion Meirion ar y Traeth ym Mhorthaethwy o 5-2.

Mae Stuart Williams o Fethel, cyn-ddisgybl o'r ysgol ond sydd bellach yn ysgol Syr Hugh Owen, wedi ei ddewis i chwarae dros Fechgyn Hŷn Ysgolion Gogledd Cymru. Da iawn Stiw!

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r "Eco".

£50: Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen •
£5: Mr Cledwyn Parry, Glan y Don, Llanberis
£5: Mr Richie Jones, 24 Bro Rhiwen, Rhiwlas
£3: Mrs Nellie Pritchard, Wern, Porthmadog (gynt o 4 Rhes Brynhyfryd, Penisarwaun)
Mr Hugh Thomas, Gwenallt, Llanrug
£2: Olwen Ebull, Coventry a Mr Bryn Evans, Rugby
£1: Menai a Melfyn Pitts, Tregarth
Alan Parry, Truner St, Llanberis
Mrs Enid Roberts, Maes Padarn, Llanberis
Mrs Nancy Rowlands a Lena, 12 Pentre Helen, Deiniolen.
Iona ac Eurwyn
Delyth Fôn Williams.

Gwersi Telyn
Adloniant
e.e. Priodasau,
Dydd Gŵyl Dewi a.y.b.
Telynores broffesiynol
Ffoniwch Bangor 352485

PÊL-RWYD

Mae dwy ferch o Ysgol Brynrefail, Nia Gwyn Griffiths a Nia Owen, y ddwy o Lanberis wedi eu dewis i garfan tîm Pêl-Rwyd Ysgolion Gwynedd. Llongyfarchiadau iddynt. Bu timau o'r ysgol hefyd yn llwyddiannus yn erbyn ysgolion Syr Hugh Owen a Dyffryn Nantlle'n ddiweddar.

NOFWYR LLWYDDIANNUS YSGOL BRYNREFAIL

Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus mewn Gala Nofio yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ddiweddar yn erbyn ysgolion Syr Hugh Owen a Ffriars. Daeth Glen Lamb yn 3ydd, Rhian Roberts yn 1af, Stephen Wroe yn 2il a Carolyn Jones yn 3ydd yn eu gwahanol oedrannau yn y rasus ar y cefn. Yn y dull Broga, Kevin Huston, Catherine Williams ac Aled Jones yn gyntaf, Olwen Jones yn ail a Julie Bayliss yn drydydd. Yn y dull rhydd, cyntaf i Dafydd Llywelyn a Darren Lamb, ail i Haf Owen a thrydydd i Joe Neale, Meinir Williams a Mandy Williams. Dau drydydd ac ail gafodd Martin Hughes, Anna Roberts ac Arwel Hughes ar y pili-pala. Yn y rasus cyfnewid daeth y bechgyn 11-13 oed yn 3ydd a'r genethod yn ail, y bechgyn 13-15 oed yn gyntaf a'r genethod yn drydydd.

Digwyddiad cymdeithasol y flwyddyn!

CINIO NADOLIG

Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa
(a sgwrs gan John Owen Huws)

Nos Fercher
17 Rhagfyr
Gwesty'r Victoria
Llanberis
Pris **£5**

Rhowch eich enwau i'r Ysgrifennydd (CAERNARFON 5605) **ar unwaith os oes modd,** ac erbyn RHAGFYR 10fed fan hwyraf

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

Brysiwch!
Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch
CYW IÂR
a PHOB MATH
O GIGOEDD
ERAILL
YN AWR
gan
Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Mynnwch y gorau
a dewch atom ni!

CHWARAEON

PYSGOTA

Adroddiad H P Hughes, Bethel

Apêl yn gyntaf i holl aelodau'r Gymdeithas. Er fod y tymor 'sgota ar ben ni chynhelir y Cyfarfod Blynyddol tan nos lau, Rhagfyr 11eg yn yr Institute, Caernarfon (yr hen lyfrgell) am 7 o'r gloch. Mae materion pwysig i'w trafod, gan gynnwys y tâl aelodaeth am 1987. Felly gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol.

Mae'r gymdeithas hefyd wedi paratoi tocynnau £5 i'w defnyddio tuag at gostau y flwyddyn nesaf. Anrheg Nadolig da, efallai!

HANES YR HEN FELINAU

Yn ystod y blynyddoedd y bum yn crwydro glannau'r Seiont, sylwais lawer gwaith ar adfeilion yr holl felinau sy'n ei hymylu, o felin Sam yn Neiniolen i Glan Morfa yng Nghaernarfon. Tybiaf fod oddeutu tair ar ddeg ohonynt, hyn yn adlewyrchiad o bwysigrwydd yr afon i economi'r ardal yn y dyddiau a fu.

Bum yn chwilio yn yr Archifdy yng Nghaernarfon er mwyn ceisio darganfod mwy am yr etifeddiaeth hon, ac er fy siom, does fawr o ddim yno o ddiddordeb ar y pwnc. Apêl arall felly; os oes gwybodaeth am yr hen adeiladau hyn, ac yn enwedig hen luniau, ym meddiant unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco, fe hoffwn yn fawr gael eu gweld. Gallwch gysylltu â mi drwy olygydd Chwaraeon yr Eco.

Mae'r cysylltiad rhwng y melinau hyn a 'sgota'r Seiont yn amlwg gan fod yn rhaid creu pyllau er sicrhau cyflenwad o ddŵr iddynt, ac o'r llynnoedd hyn daw rhai o bysgod gorau'r afon. Efallai y cofiwch y cefndir y tro nesaf y byddwch yn 'sgota Llyn Garreg, llyn Doctor a llyn Harri Parri yn Llanrug, llyn William Owen, Pontrug a Llyn Distaw, llyn Criw a llyn Crwn yng Nghaernarfon.

BLAS AR BÊL-DROED DAN 12 OED

Bu llewyrch yn ddiweddar ar y Cynghreiriau Pêl-droed dan 16 a dan 12 oed, a chynrychiolir y mwyafrif o bentrefi'r ardal yn un neu'r llall.

Manteisiais rhyw fythefnos yn ôl i daflu llygad ar beth o'r chwarae gan wylio tîm dan 12 Llanrug yn erbyn Deiniolen, a'r hyn ddaeth yn amlwg iawn oedd brwdfrydedd yr hogia ac ymroddiad di-flino y rhai sy'n gofalu amdanynt. Ag un eithriad yn unig, plant o Lanrug oedd yn cynrychioli'r pentref yn eu tîm hwy, a hogia o Ddeiniolen yn unig yn eu tîm hwythau. Dydi canlyniad y gêm ddim yn bwysig, gan na thorwyd calon yr un o hogia Deiniolen pan rwydwyd yr wythfed gôl gan Lanrug.

Elfed Williams ac Eurwyn Jones sy'n gofalu am dîm Deiniolen, sy'n cael eu gorfodi i chwarae pob gêm oddi cartref gan na fydd eu llain yn y pentref yn barod am wythnos neu ddwy eto. Maent wedi chwarae 7 gêm yn y gynghrair, gan ennill 2 a dod yn gyfartal ddwywaith.

Mathew Powell yw'r gôl-geidwad, Sion a Marc Hughes, Jones, Eilir Williams a Trystan Parry yw'r ymosodwyr.

Tîm dan 12 oed, Deiniolen

Mae tîm Llanrug, dan reolaeth Dafydd Arfon Jones, wedi ennill 7 o'i wyth gêm, gan ddod yn gyfartal yn erbyn Llanllechid. Fe sgorwyd 49 gôl ganddynt yn erbyn 8, a Meical Owen yn cael 11 ohonynt. Yn wir mae 10 o'r hogia wedi rhwydo eisoes y tymor hwn.

Gethin Parry yw'r goli, Iolo Eilian, Dyfed Thomas a Gwion Llwyd yr amddiffynwyr. Y canolwyr yw Aled Roberts, Neil Hughes, Andrew Gardner, Gavin Williams, John Watkin a Simon Murphey. Cyd-flaenwyr Meical yw Jonathan Davies, Aled ac Iwan Parry a Dyfan Evans o Benisarwaun.

Daliwch ati hogia, chi ydi dyfodol timau mawr yr ardal. Chwithau'r rheolwyr, mae'r pleser a'r profiad a gynigir gennych i'r hogia yn amhrisiadwy.

Gobeithiaf weld y gweddill o dimau'r ardal cyn diwedd y tymor.

PÊL-DROED

Siomedig fu canlyniadau tîm pêl-droed Bethel eto'r mis hwn. Maent bellach yn drydydd o waelod Cynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch, wedi ennill dwy, a dod yn gyfartal mewn dwy arall o'r unarddeg gêm a chwaraewyd. Colli fu eu hanes y Sadwrn diwethaf hefyd, 2 gôl i ddim adref yn erbyn Bontnewydd. Er mor siomedig y canlyniad, mae'r gêm hon wedi creu testun trafod ac ambell ddadl ymysg cefnogwyr yr ardal; 'roedd tad a dau o'i feibion yn chwarae ynddi. Ail wisgodd Ali (Alan V Owen o Lanrug) ei esgidiau ar ôl mynnu ei fod wedi eu hongian am y tro olaf, yn dilyn blynyddoedd lawer o wasanaeth i Lanrug. Y mae ei feibion Steve a Chris hefyd yn chwarae i Fethel. 'Sgwn i ydi hyn yn creu record newydd yn yr ardal. Gadewch i ni wybod.

Parhau o nerth i nerth wna timau Llanrug a Llanberis. Mae ail dîm Llanrug yn drydydd yng Nghynghrair Sain, a'r Sadwrn diwethaf, aethant ymlaen i ail rownd cwpan Will Evans drwy guro ail dîm Harlech o 7 gôl i 0. Gwyn Morris a Gary Davies yn ei gwneud yn 2-0 hanner amser, ac yna Allan Williams, Kevin Edwards (2) a Dafydd Roberts (2) yn gorffen y difrod.

Yr un diwrnod bu'n rhaid i'r tîm cyntaf deithio i Shotton yn rownd gyntaf Cwpan Gogledd Cymru, a dychwelyd â chanlyniad arddercho g. Richard Williams, Hefin Pritchard, Dilwyn John Williams a Kevin Williams yn sicrhau buddugoliaeth o 4 gôl i 1. Daeth Kevin, cefnwr de a chapten y tîm yn dipyn o arbenigwr ar sgorio'n ddiweddar, *Deadly Kev* yw ei lysenw bellach.

Bethesda oedd yr ymwelwyr â Llanberis yn yr un gystadleuaeth. Mae'r tîm hwn yn bumed yng Nghynghrair Daily Post Gogledd Cymru ac ar Sadwrn, Tachwedd 15fed trechwyd Llanbêr ganddynt o 2 gôl i 1 ym Methesda yng Nghwpan Gyfryngol Cymru.

'Roedd yn stori wahanol y Sadwrn diwethaf yn Llanberis, a'r tîm lleol yn anlwcus i gael eu gorfodi i ail chwarae yn dilyn gêm gyfartal. Pedair yr un oedd hi, Steven Williams ac Iwan Evans yn sgorio dwy yr un.

Mae'r ddau dîm, Llanberis a Llanrug yn parhau ar gopa Cynghrair Gwynedd. Mae Llanrug yn ddiguro, ar ben Grŵp A yn Nharian Eryri, a Llanberis hwythau yn yr un safle yn grŵp B.

Bydd 'darbi' gynta'r tymor rhwng y ddau dîm yma yn Llanberis ar Rhagfyr 27, y gic gyntaf am 2.15pm.

Tîm dan 12 oed Llanrug

Elfed yn 'rhoi'r law i lawr' cyn dechrau'r gêm.

Gwaith caled yw bod yn rheolwr, Dafydd Arfon yn paratoi'r cae ar gyfer y gêm.

Fel y gwelwch o'r lluniau uchod, nid gwaith awr a hanner ar fore Sadwrn yw bod yn rheolwr tîm pêl-droed. Bu Dafydd Arfon wrthi am amser maith cyn y gêm yn paratoi'r cae, marcio'r llinellau, gosod y rhwydi ac ati, cyn i neb o'r chwaraewyr ddod yn agos i'r maes. Bu Elfed yntau yn sicrhau fod digon o garedigion wedi ymgynnull â'u ceir i sicrhau fod cludiant ar gyfer pob aelod o'r tîm.